Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner




# Adroddiad Blynyddol

## 2022-2023

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys




[Rhagair](#) ........ 2

[Rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu](#) ........ 4

[Cynllun Heddlu a Throseddu 2021-25](#) ........ 6

[Cynnydd yn erbyn Cynllun Heddlu a Throseddu 2021-25](#) ........ 7

[Blaenoriaeth 1: Cefnogi Dioddefwyr](#) ........ 7

[Blaenoriaeth 2: Atal niwed](#) ........ 17

[Blaenoriaeth 3: Sicrhau system gyfiawnder fwy effeithiol](#) ........ 30

[Gwerthoedd](#) ........ 36

[Cydweithio](#) ........ 36

[Bod yn atebol](#) ........ 40

[Bod yn gynaliadwy](#) ........ 52

[Ymgysylltu'n eang](#) ........ 53

[Adnoddau](#) ........ 59

# Rhagair



Mae 2022-23 wedi bod yn flwyddyn heriol ond cynhyrchiol i bawb sy'n ymwneud â phlismona. Dyma'r ail flwyddyn o gyflawni prosiectau sy'n cyd-fynd â'm blaenoriaethau allweddol o'm Cynllun Heddlu a Throseddu ar gyfer 2021-25. Gwnaethpwyd hyn yn erbyn y cefndir o bwysau ariannol parhaus a gyda hyder y cyhoedd yn yr heddlu yn isel yng Nghymru a Lloegr. Mae fy swyddfa a minnau wedi gweithio'n galed gyda'r heddlu i sicrhau ein bod ni mor effeithlon ag y gallwn fod, gan sicrhau gwerth am arian bob amser, a'n bod ni'n darparu gwasanaethau hynod o effeithiol i'r rhai sydd eu hangen.

Fel eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu fy nghyfrifoldeb i yw cynrychioli eich llais wrth osod y blaenoriaethau ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys, wrth ymgysylltu â chymunedau Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys. Mae'n amlwg i mi, fod pobl am weld yr heddlu'n mynd i'r afael â phryderon ynghylch troseddau lleol ac yn diogelu'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn flaenoriaeth allweddol i mi. Dim ond drwy gydweithio ar draws y sector cyhoeddus a chydag arbenigwyr pwnc y gellir cyflwyno system gyfiawnder effeithiol. Fel yr 'hyrwyddwr dioddefwyr' lleol, mae gwrando ar safbwyntiau'r rhai sydd wedi cael profiad uniongyrchol o'r system cyfiawnder troseddol, a dysgu ohonynt, yn hollbwysig, ac felly hefyd darparu gwasanaethau effeithiol i ddioddefwyr.




Rwy'n falch o waith y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr a'r ffordd y mae eu hadborth wedi cael ei ddefnyddio i wella gwasanaethau dros y flwyddyn ac edrychaf ymlaen at barhau, ac yn wir, sicrhau bod gweithgareddau o'r fath yn cynyddu.

Yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu, ymrwymais i sicrhau nad yw cymunedau ac unigolion, yn enwedig y rhai mwyaf bregus, yn cael eu niweidio gan droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.. Mae ymyriadau cynnar a dulliau datrys problemau yn hanfodol i atal niwed, a dyna'r rheswm dros fy muddsoddiad mewn ystod eang o raglenni atal a dargyfeirio ledled ardal Dyfed-Powys. Uchafbwynt nodedig i mi yn ystod y flwyddyn oedd croesawu Yr Angel Cyllyll iAberystwyth. Er mai ardal Dyfed-Powys yw'r ardal fwyaf diogel yng Nghymru a Lloegr gyda lefelau isel o droseddau treisgar, yn enwedig troseddau â chyllyll, rhaid inni gydnabod eu bod yn digwydd ac mae angen clywed y negeseuon gwrth-drais a gwrth-ymosodedd.

Fel Cadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, rwyf wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid, cymunedau a dioddefwyr i wella hyder yn y system cyfiawnder troseddol. Fel yr Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer Cadwrfa Ddiogelu Cymru, rwyf wrth fy modd â'r cynnydd a wnaed o dan brosiect yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl sy'n gydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, Prifysgol Caerdydd, y Swyddfa Gartref a rhanddeiliaid allweddol eraill ledled Cymru i sicrhau dull Cymru gyfan o ddysgu o'r adolygiadau.

Ar lefel fwy lleol, rwyf hefyd yn falch o'r gwaith partneriaeth sy'n cael ei wneud gan Y Panel Craffu Dyfed-Powys ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys, a amlygwyd mewn adroddiad gan Gymdeithas yr Ynadon fel arfer gorau ym mis Rhagfyr 2022. Rwy'n ddiolchgar am yr ymgysylltu a'r cydweithio cadarnhaol yr ydym wedi'u cyflawni ar draws nifer o bartneriaethau ar draws ardal Dyfed-Powys, sydd i gyd yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau ar gyfer ein cymunedau lleol. Rwy'n hyderus y bydd y dull partneriaeth hwn yn parhau dros y flwyddyn i ddod er mwyn gwella gwasanaethau ymhellach.

Gan barhau ar lefel leol hoffwn ddiolch yn bersonol i'r gwirfoddolwyr hynny sydd wedi rhoi o'u hamser dros y flwyddyn ddiwethaf am eu cyfraniadau sylweddol. Yn benodol, y gwaith a wnaed ar y siwt gwrth-rwygo fel rhan o gynllun peilot cenedlaethol. Mae'r Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd wedi bod yn allweddol i sicrhau gwelliannau ynghylch defnyddio siwtiau gwrth-rwygo, yn enwedig mewn perthynas â chofnodi eu defnydd.

Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth barhaus – diolch yn fawr iawn.



Dafydd Llywelyn
Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

# Rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Roedd 2022 yn nodi deng mlynedd ers i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu cael eu hethol yn ddemocrataidd am y tro cyntaf, a dechrau gwneud gwahaniaeth gwirioneddol drwy roi llais cryfach i'r cyhoedd ym meysydd plismona a chyfiawnder troseddol.

Dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn "Mae'n fraint ddiffuant cael gwneud swydd Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer yr ardal y cefais fy magu ac yr wy'n byw ynddi. Mae'n anrhydedd mawr i gynrychioli y cyhoedd ym meysydd plismona a'r system cyfiawnder troseddol lleol ac rwy'n aml yn cyfeirio at fy rôl fel pont rhwng y cyhoedd a'r gwasanaethau pwysig hyn.

Mae hon yn ddyletswydd ac yn gyfrifoldeb rwy'n eu cymryd o ddifrif ac rwy'n mwynhau fy ngwaith yn fawr"

## Dyma 12 peth i wybod am Gomisiynydd Heddlu a Throseddu.

### Mae'r comisiynydd yn gyfrifol am y canlynol:

1. Gosod y blaenoriaethau ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys;
2. Cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throseddu;
3. Ymgysylltu â chymunedau a chynrychioli llais y cyhoedd ar faterion plismona;
4. Gweithio'n agos gyda phartneriaid diogelwch cymunedol a phartneriaid cyfiawnder troseddol;
5. Cefnogi dioddefwyr a dod â phobl o flaen eu gwell;
6. Comisiynu gwasanaethau i wneud cymunedau'n fwy diogel ac i gefnogi'r rhai sy'n agored i niwed;
7. Penodi ac, os oes angen, diswyddo'r Prif Gwnstabl;
8. Delio â chwynion a materion disgyblu yn erbyn y Prif Gwnstabl;
9. Sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol; a
10. Pennu cyllideb flynyddol yr heddlu a lefel y praesept.

### Nid yw'r comisiynydd yn gyfrifol am y canlynol:

11. Y gwaith dyddiol o drefnu a darparu gwasanaethau'r heddlu, a elwir yn 'plismona gweithredol'; nac
12. Ymchwilio i gwynion yn erbyn swyddogion heddlu islaw rheng y Prif Gwnstabl.

Ewch i'n tudalen YouTube i wylio fideo sy'n esbonio pwrpas, cyfrifoldebau a rôl Comisiynwyr Heddlu a Throseddu https://www.youtube.com/watch?v=ZrPjq4xCf7k

# Cynllun Heddlu a Throseddu 2021-25

Un o rolau allweddol Comisiynydd Heddlu a Throseddu yw cynhyrchu Cynllun Heddlu a Throseddu sy'n gosod y cyfeiriad ar gyfer plismona am gyfnod o bedair blynedd.

## Y weledigaeth

**"Fy ngweledigaeth gyffredinol ar gyfer 2021-25 yw cadw cymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ddiogel, gan gynnal ymddiriedaeth a hyder yn ein heddlu ac yn y system cyfiawnder troseddol yn ei chyfanrwydd."**

## Blaenoriaethau


Tair blaenoriaeth allweddol y Comisiynydd yw sicrhau:

1. **Bod dioddefwyr yn cael eu cefnogi,**
2. **Bod niwed yn cael ei atal, a**
3. **Bod ein system gyfiawnder yn fwy effeithiol.**



## Gwerthoedd

Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hyn a chwrdd â gweledigaeth y comisiynydd, rhaid mabwysiadu nifer o werthoedd sy'n sail i'r gwaith a wneir gan y comisiynydd, ei dîm a'i bartneriaid:




Mae'r cynllun yn manylu ar nodau'r comisiynydd ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys a sut y bydd yn sicrhau bod yr heddlu yn atebol i'w cyflawni, yn ogystal â nodi'r camau y bydd y comisiynydd yn eu cymryd gyda phartneriaid.

Mae Cynllun Heddlu a Throseddu 2021-25 ar gael ar wefan y comisiynydd: https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-comisiynydd/cynllun-heddlu-a-throseddu/

Mae cyfres o fideos wedi'u hanimeiddio ar gael drwy glicio'r ddolen uchod, i gefnogi a chrynhoi Cynllun Heddlu a Throseddu'r Comisiynydd, er mwyn ei wneud yn fwy hygyrch i bawb.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn adlewyrchu ar y gwaith a gwblhawyd mewn ymateb i'r blaenoriaethau, yn ogystal â'r ffordd y mae'r comisiynydd wedi hyrwyddo cydweithredu, atebolrwydd, cynaliadwyedd ac ymgysylltu.

# Y Gofyniad Plismona Strategol

Mae'r Gofyniad Plismona Strategol yn nodi'r bygythiadau hynny y mae'r Ysgrifennydd Cartref yn barnu eu bod yn peri'r bygythiad mwyaf i ddiogelwch y cyhoedd, a rhaid i'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu rhoi sylw dyledus iddynt wrth gyhoeddi neu amrywio Cynlluniau Heddlu a Throseddu. Mae'n cefnogi'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn ogystal â'r Prif Gwnstabliaid i gynllunio, paratoi ac ymateb i'r bygythiadau hyn drwy wneud cysylltiad clir rhwng yr ymateb lleol a'r ymateb cenedlaethol, gan amlygu'r galluoedd a'r partneriaethau sydd eu hangen ym maes plismona i sicrhau y gall gyflawni ei gyfrifoldebau cenedlaethol.

Cyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig o'r Gofyniad Plismona Strategol ym mis Chwefror 2023 a roddodd fanylion manylach ynghylch y camau gweithredu sy'n ofynnol gan blismona ar lefel leol a rhanbarthol yn erbyn y bygythiadau cenedlaethol critigol. Mae Gofyniad Plismona Strategol 2023 yn amlinellu saith bygythiad cenedlaethol sydd wedi'u hadnabod. Mae'r chwech cyntaf fel a ganlyn: troseddau cyfundrefnol a difrifol (SOC); terfysgaeth; seiber; cam-drin plant yn rhywiol; anhrefn cyhoeddus ac argyfyngau sifil. Erys y chwech rhain o fersiwn 2015 ac, yn 2023, ychwanegwyd trais yn erbyn menywod a merched (VAWG) yn 2023, gan adlewyrchu'r bygythiad y mae'n ei gyflwyno i ddiogelwch a hyder y cyhoedd.

O ystyried bod yr adroddiad blynyddol hwn ar gyfer y flwyddyn rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023, ni fydd yn ymateb yn fanwl i'r Gofyniad Plismona Strategol diwygiedig oherwydd amseriad ei gyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r comisiynydd yn hyderus bod sylw dyledus wedi'i roi i'r chwe maes bygythiad a nodwyd yn y Gofyniad Plismona Strategol yn ei Gynllun Heddlu a Throseddu ac mae wedi bod yn sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol yn unol â hynny. Er nad oedd trais yn erbyn menywod a merched wedi'i gynnwys o'r blaen yn y Gofyniad Plismona Strategol , fe'i nodwyd fel mater allweddol a phwysig gan y comisiynydd sy'n rhywbeth sydd wedi'i adlewyrchu yn y Cynllun Heddlu a Throseddu ac sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.



# Cynnydd yn erbyn Cynllun Heddlu a Throseddu 2021-25

## Blaenoriaeth 1: Cefnogi Dioddefwyr

### Buddsoddiad mewn gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr

Mae'r comisiynydd wedi ymrwymo i sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu cydnabod a'u cefnogi, bod eu lleisiau'n cael eu clywed a bod ymatebion yn cael eu teilwra i'w hanghenion unigol.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23, parhaodd y comisiynydd i ariannu gwasanaethau cymorth hanfodol i ddioddefwyr. Mewn llawer o achosion, gwneir hyn gan ddefnyddio cyllid grant dioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Canlyniad allweddol o hyn yw bod gwasanaethau'n helpu dioddefwyr i ymdopi ag effaith trosedd ac adfer ar ôl iddi ddigwydd.

### Gwasanaeth aml-drosedd Goleudy

Drwy gydol 2022-23, parhaodd Goleudy i gynnig cymorth personol, emosiynol ac ymarferol i helpu dioddefwyr, eu teuluoedd a thystion trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cynhaliodd Goleudy gyfres o ddigwyddiadau datblygu yn ystod y flwyddyn i nodi gwelliannau angenrheidiol i wasanaethau. O ganlyniad i hyn, mae swyddogion heddlu wedi cynnal asesiadau anghenion cyson i nodi a oes gan ddioddefwr yr hawl i dderbyn gwasanaeth ychwanegol o dan y Cod Ymarfer Dioddefwyr.

**Yn ystod 2022-23:**

- Cafodd ychydig dros **35,000** o ddioddefwyr trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol eu hatgyfeirio er mwyn asesu eu hangen am gymorth. Ymgysylltodd **86%** o'r dioddefwyr hyn â Goleudy.

Mae Goleudy yn atgyfeirio dioddefwyr at wasanaethau cymorth arbenigol pan fo angen, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, cam-drin domestig, trais rhywiol a chamddefnyddio sylweddau.

**Canlyniadau gwasanaeth cymorth Goleudy:**

- **88%** yn teimlo'n fwy diogel.
- **80%** yn teimlo bod eu hiechyd a'u llesiant wedi gwella.
- **87%** yn teimlo eu bod yn gallu ymdopi o ganlyniad i gefnogaeth gan Goleudy.

## Y Gwasanaeth Cynghori Annibynnol ar Drais Domestig

Roedd cyllid y comisiynydd yn caniatáu i ddarparwyr gwasanaethau gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig, a hynny'n syth o'r adeg ar ôl iddynt adrodd y digwyddiad hyd at ymddangosiadau llys.

Mae'r gwasanaeth hwn yn gosod esiampl o arfer gorau lle mae'r comisiynydd yn ymuno â'r pedwar awdurdod lleol ar draws ardal Dyfed-Powys i ariannu un gwasanaeth, gan sicrhau bod cynnig cyson o gymorth yn cael ei ddarparu i ddioddefwyr  ddioddefwyr a'u teuluoedd.

Mae'r Gwasanaeth Cynghorol Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA), sy'n cael ei redeg gan Hafan Cymru a Pobl, yn cefnogi dioddefwyr cam-drin domestig sy'n agored i niwed, sydd wedi dioddef fwy nag unwaith ac sy'n wynebu sefyllfaeodd risg uchel, ynghyd â'u teuluoedd. Maent yn sicrhau bod lefelau risg yn cael eu lleihau, a bod cynlluniau diogelwch yn cael eu rhoi ar waith.


**Yn ystod 2022-23:**

- Cafodd **1,649** o atgyfeiriadau eu gwneud i'r Gwasanaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig.
- Ymgysylltodd **85%** o'r rhai a gafodd eu hatgyfeirio â'r gwasanaeth.
- Roedd **38%** yn bobl a oedd wedi cael eu hatgyfeirio fwy nag unwaith.
- Mewn **82%** o achosion cysylltwyd â'r dioddefwr o fewn un diwrnod gwaith, yn unol â'r safonau cydnabyddedig.
- Cafodd **15%** o'r defnyddwyr gefnogaeth wyneb yn wyneb, a dewisodd y gweddill gael cymorth ar-lein neu ddarpariaeth cymorth arall.

**Canlyniadau a gyflawnwyd gan ddefnyddwyr y Gwasanaeth Cynghorol Annibynnol ar Drais Domestig:**

- **71%** wedi nodi bod ansawdd eu bywyd wedi gwella.
- **61%** o gleientiaid wedi dweud eu bod yn teimlo'n fwy diogel.
- **70%** o gleientiaid yn fodlon ar y gwasanaeth cyffredinol a gawsant.

Yn ystod haf 2022, arweiniodd swyddfa'r comisiynydd y gwaith o ail-gomisiynu'r gwasanaeth hwn, ynghyd â'r pedwar awdurdod lleol a gwmpesir gan Heddlu Dyfed-Powys. Roedd hyn yn cynnwys mewnbwn gan bartneriaid ac asiantaethau sy'n gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth, yn ogystal â chleientiaid blaenorol. Dechreuodd y cytundeb newydd, a gyflwynwyd gan Gonsortiwm Dal i Godi, ar 1 Ebrill 2023.



## Y Gwasanaeth Cynghorol Annibynnol ar Drais Rhywiol

Yn sgil cyllid a ddarparwyd gan y comisiynydd, parhaodd New Pathways i ddarparu mynediad 24 awr at gymorth argyfwng a chymorth parhaus i ddioddefwyr cam-drin rhywiol drwy gydol 2022-23. Mae'r cymorth hwn yn cynnig gwasanaethau cymorth cyntaf, diogelu, a gofal clinigol a fforensig arbenigol mewn man diogel yn ogystal â mynediad at gymorth arbenigol parhaus drwy'r system cyfiawnder troseddol.

**Yn ystod 2022-23:**

- Cafodd **612** o atgyfeiriadau eu gwneud i New Pathways.
- Roedd **49%** o'r rhain yn achosion hanesyddol.
- Roedd **15%** o'r atgyfeiriadau ar gyfer plant o dan 16 oed.
- Roedd **7%** ychwanegol o ddioddefwyr a atgyfeiriwyd yn 16 neu 17 oed.

**Canlyniadau gwasanaeth cymorth New Pathways:**

- **87%** o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi dweud eu bod yn teimlo'n fwy abl i ymdopi.
- **84%** wedi profi gostyngiad mewn symptomau pryder.

Mae'r comisiynydd wedi parhau i weithredu fel cynrychiolydd y comisiynydd arweiniol yn y model plismona ac iechyd ar y cyd o gyflenwi gwasanaethau cam-drin rhywiol ledled Cymru. Mae hwn yn darparu model sy'n sicrhau llywodraethiant clinigol ar achosion ac yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer tystiolaeth fforensig, a thrwy hynny yn sicrhau'r gwasanaeth gorau posibl i ddioddefwyr. Fel rhan o hyn, bydd y comisiynydd yn gweithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu De Cymru a Gwent i gaffael y Gwasanaeth Cynghorol Annibynnol ar Drais Rhywiol ar gyfer ardaloedd y tri heddlu, i ddechrau ym mis Ebrill 2024.

## Cyllid ychwanegol ar gyfer dioddefwyr trais domestig a rhywiol

Yn ystod 2022-23, sicrhaodd Swyddfa'r Comisiynydd £271,041 gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer sefydliadau sy'n cefnogi'r rhai sy'n profi trais domestig neu drais rhywiol. Mae'r cyllid hwn yn helpu i sicrhau bod rhai o'r unigolion mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau yn gallu cael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt. Roedd y rhai a dderbyiodd hwn yn cynnwys:

- Eiriolaeth ar gyfer Cam-drin Domestig Angheuol;
- BAWSO;
- Prifysgol Aberystwyth – yn rhedeg gwasanaethau Dewis Choice;
- Gwasanaeth Trais Domestig Calan;
- Gwasanaeth Cam-drin Domestig Sir Gaerfyrddin;
- Pobl yn Gyntaf Sir Benfro;
- Goleudy;
- Trothwy Gwasanaethau Cam-drin Domestig;
- Cymorth Twf Addysg Rhieni (PEGS).

Parhaodd cyllid ychwanegol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer gwasanaeth y Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVAs) a'r Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVAs) yn ystod 2022-23, gyda Dyfed-Powys yn derbyn £521,991.

Mae'r cynnydd yng nghymhlethdod a nifer yr achosion a welwyd am y tro cyntaf o ganlyniad i bandemig COVID-19 wedi parhau, gan arwain

> Mae'r Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (**ISVA**) yn darparu cymorth emosiynol ac ymarferol i ddioddefwyr trais rhywiol neu ymosodiad rhywiol. Eu prif rôl yw darparu cefnogaeth ynghylch y broses cyfiawnder troseddol.

> Mae'r Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (**IDVA**) yn darparu cymorth mewn argyfwng i ddioddefwyr cam-drin domestig yr aseswyd eu bod yn wynebu risg uchel. Maent yn gweithio i leihau risg a gweithredu cynlluniau diogelwch.

at alw mawr parhaus am wasanaethau. Mae'r cyllid ychwanegol yn ei gwneud yn bosibl darparu adnoddau penodol megis Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) / Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc arbenigol a dynion sy'n Gynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) / Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) er mwyn sicrhau bod ffocws ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

## Gwasanaeth ôl-drafod ar gyfer bobl ifanc sydd ar goll

Sicrhaodd cyllid gan y comisiynydd fod Llamau yn gallu parhau i gynnig ôl-drafodaethau, cefnogaeth a gwasanaethau cyfryngu annibynnol. Mae'r gwasanaeth ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yr adroddwyd eu bod 'ar goll' ac mewn perygl o gam-fanteisio rhywiol neu erledigaeth.

Roedd 17% o'r bobl ifanc a gafodd eu hatgyfeirio ar gyfer ôl-drafodaeth yn dangos arwyddion posibl o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant. Nodwyd materion yn ystod sesiynau ôl-drafod lle roedd pobl ifanc mewn perygl sylweddol o droseddu - fel dioddefwyr a chyflawnwyr. Roedd Llamau yn gallu darparu'r cymorth a'r gwasanaeth cyfryngu angenrheidiol yn yr achosion hyn er mwyn ceisio torri'r cylch hwn.

Gellir gweld effaith y gwasanaeth o hyd o ran y buddion i'r rhai sy'n derbyn y gwasanaeth. Mae tystiolaeth yn dangos bod darparu gwasanaeth ôl-drafod annibynnol, yn hytrach na bod gwasanaeth o'r fath yn cael ei gynnal gan yr heddlu neu swyddogion gofal cymdeithasol, yn galluogi'r person ifanc i siarad yn rhydd ac yn golygu bod ffactorau risg yn cael eu nodi'n fwy cywir.

Yn ystod 2022-23, cafodd 449 o blant a phobl ifanc a oedd ar goll eu hatgyfeirio i Llamau ar gyfer y gwasanaeth ôl-drafod. Cafodd 320 o'r plant hyn sesiynau ôl-drafod, ac roedd y gweddill naill ai'n atgyfeiriadau amhriodol neu'n rhieni / gwarcheidwaid yn gwrthod y gwasanaeth a gynigiwyd. Mewn 75 o'r sesiynau ôl-drafod, nodwyd risgiau o gam-fanteisio'n rhywiol, ac mewn 52 o'r achosion bu atgyfeiriadau ymlaen i wasanaethau diogelu.

Yn ystod 2022, cydnabuwyd bod y gwasanaeth yn profi cynnydd sylweddol yn nifer a chymhlethdod yr atgyfeiriadau i'r gwasanaeth. O ganlyniad, cymeradwyodd y comisiynydd gynnydd yn y cyllid i ddarparu adnoddau ar gyfer y gwasanaeth. Galluogodd hyn gapasiti ychwanegol i sicrhau y gellid derbyn pob atgyfeiriad. Bydd y cynnydd yn narpariaeth y gwasanaeth yn parhau tan ddiwedd cyfnod y cytundeb ym mis Mawrth 2025.

## Ymgyrch Soteria Bluestone

Mae Ymgyrch Soteria yn ddull cenedlaethol o drawsnewid ymateb yr heddlu i drais a throseddau rhywiol difrifol eraill. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn un o 14 o heddluoedd 'ehangu'. Yn wreiddiol, canolbwyntiodd yr ymgyrch, drwy archwiliadau dwfn a manwl, ar blismona treisio a throseddau rhyw difrifol eraill mewn pum heddlu, gan gynnwys Heddlu De Cymru. Yna ehangwyd yr ymgyrch i gynnwys Heddlu Dyfed-Powys ac 13 o heddluoedd eraill. Gofynnwyd i'r rhain gwblhau hunanasesiadau ar eu hymagwedd tuag at: ymchwiliadau sy'n canolbwyntio ar y sawl sydd o dan amheuaeth, tarfu ar aildroseddu, ymgysylltu â dioddefwyr, hyfforddi swyddogion, data a pherfformiad, a gwaith fforensig digidol.

Rhoddwyd cyfle i'r comisiynydd a'i dîm ddarparu gwybodaeth ar gyfer yr hunanasesiadau, yn benodol mewn perthynas ag ymgysylltu â dioddefwyr a gwasanaethau a gomisiynir.

Cynhaliodd tîm Ymgyrch Soteria ymweliad dau ddiwrnod â'r heddlu ym mis Tachwedd 2022, pan wnaethant gwrdd ag unigolion a phartneriaid allweddol i ymchwilio'n ddyfnach i bob un o'r meysydd asesu. Gwahoddwyd y comisiynydd i fynychu sesiwn ôl-drafod yr heddlu pan argymhellwyd pedwar maes ffocws:

1. Llywodraethu a pherchnogaeth ymchwiliadau;
2. Cyflwyno gallu arbenigol;
3. Yr angen am fwy o arbenigwyr pwnc; a
4. Datblygu proffil problem ar gyfer trais rhywiol a throseddau rhyw difrifol ar gyfer ardal yr heddlu.

Yn 2023-24, bydd Ymgyrch Soteria yn datblygu Model Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer plismona trais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol. Bydd y comisiynydd a'i dîm yn mynd ati i gefnogi a goruchwylio cynnydd yr heddlu yn erbyn hyn, yn ogystal â'r argymhellion o'u hunanasesiadau.

## Ymgyrch Signature

Mae **Ymgyrch Signature** yn nodi ac yn cefnogi dioddefwyr o dwyll sy'n agored i niwed, gan ddarparu mesurau ataliol a chefnogol i'w hamddiffyn a'u diogelu rhag cael eu targedu ymhellach. Ariennir tair swydd gan y comisiynydd o fewn y Tîm Troseddau Economaidd allan o gronfa Cronfeydd Wrth Gefn y Ddeddf Enillion Troseddau (POCA).

| | 2020-21 | 2021-22 | **2022-23** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr atgyfeiriadau | 407 | 376 | **281** |

O'r 281 o unigolion a ymunodd ag Ymgyrch Signature, cafodd 71 eu categoreiddio'n ddioddefwyr risg uchel ac 86 yn ddioddefwyr risg ganolig.

| O dan 20 | 8 |
|---|---|
| 21 – 30 | 17 |
| 31 – 40 | 23 |
| 41 – 50 | 21 |
| 51 – 60 | 34 |
| 61 – 70 | 45 |
| 71 – 80 | 69 |
| 80+ | 64 |

Darparodd y Swyddog Diogelu rhag Twyll gefnogaeth drwy gysylltu'n uniongyrchol ac ymgysylltu â 166 o ddioddefwyr.

Oedran cyfartalog y rhai a ddechreuodd Ymgyrch Signature oedd 64.

Roedd 154 o'r dioddefwyr a ymunodd ag Ymgyrch Signature yn fenywod a 127 yn ddynion.

Mae'r **Protocol Bancio** yn gynllun cenedlaethol rhwng yr heddlu a'r sector ariannol. Ei nod yw adnabod cwsmeriaid banc sydd yn y broses o gael eu herlid, a'u hatgyfeirio i Ymgyrch Signature.

Atgyfeiriwyd 112 o ddioddefwyr i Ymgyrch Signature drwy'r Protocol Bancio yn ystod 2022-23.

Drwy'r protocol hwn, llwyddodd y Swyddog Diogelu rhag Twyll a Heddlu Dyfed-Powys i atal colli £1.2 miliwn.

### Enghraifft o achos a atgyfeiriwyd i'r Protocol Bancio:

- Rhoddwyd y Protocol Bancio ar waith ar gyfer dyn oedrannus yn sgil pryderon a godwyd am werth yr arian parod yr oedd wedi'i dynnu allan.
- Honnodd y dioddefwr fod yr arian i'w roi i'w wyres. Ond nid oedd staff y gangen yn credu bod ganddo unrhyw deulu lleol heblaw ei wraig.
- Aeth swyddogion i'r gangen a holi'r dioddefwr, a chanfyddon nhw nad oedd ganddo wyres a'i fod mewn gwirionedd yn ceisio tynnu arian parod gan gredu ei fod yn cynorthwyo ymchwiliad heddlu.
- Roedd y dioddefwr wedi bod yn destun twyll cludwr. Fe wnaeth gweithredoedd y banc a'r heddlu atal unrhyw golled ariannol i'r dioddefwr.
- Rhoddwyd cyngor i'r dioddefwr a chyflwynwyd nifer o fesurau atal twyll.

Yn ystod 2022-23, parhaodd y Swyddog Diogelu rhag Twyll i ymgysylltu â nifer fawr o ddioddefwyr twyll rhamant.

Mae troseddwyr sy'n ymwneud â thwyll rhamant yn buddsoddi cryn dipyn o amser mewn teilwra'u dioddefwyr yn gymdeithasol, gan wybod, wrth iddynt ennill eu hymddiriedaeth, fod eu siawns o dynnu arian sylweddol oddi wrthynt yn cynyddu.

Ni ellir diystyru'r effaith emosiynol, meddyliol ac ariannol y mae'r math hwn o dwyll yn ei chael ar ddioddefwyr. Mae angen i'r Swyddog Diogelu rhag Twyll wneud gwaith ymgysylltu sylweddol i hyd yn oed argyhoeddi'r dioddefwr ar y dechrau ei fod wedi cael ei dargedu'n droseddol.

Cafodd 102 o achosion o dwyll rhamant eu hadrodd i Heddlu Dyfed-Powys yn ystod y flwyddyn, a arweiniodd at golled ariannol o £1,165,000 i'r dioddefwyr.




## Action Fraud

Nid yw Heddlu Dyfed-Powys yn cyfeirio dioddefwyr sy'n cysylltu â'r heddlu at Action Fraud ond mae ei swyddogion yn cofnodi pob trosedd mewn grym ac yna'n adrodd am bob un yn unigol i Action Fraud ar ran y dioddefwr. Mae'r dull wedi cael ei gydnabod ac wedi'i ganmol yn genedlaethol. Mae Asesiad Twyll Rhamantaidd 2022 Heddlu Dinas Llundain yn cydnabod y canlynol:

***"Lansiodd Heddlu Dyfed-Powys fenter i sicrhau cynnydd yn nifer a chywirdeb yr adroddiadau i Action Fraud a gwella ansawdd y gofal ar gyfer dioddefwyr twyll a throseddau seiber. Bu'n llwyddiannus iawn."***

Cafodd cyfanswm o 4,069 o achosion eu hadrodd i Action Fraud gan drigolion ardal Dyfed-Powys yn ystod 2022-23.

Cafodd 2,603 o'r rhain eu hadrodd i Heddlu Dyfed-Powys fel galwad am wasanaeth.

Cafodd 1,466 eu hadrodd yn uniongyrchol i Action Fraud, lle na chaiff colledion eu cofnodi.

Cyfanswm y colledion ariannol a gofnodwyd ac a ddioddefwyd gan yr holl ddioddefwyr twyll oedd £9,065,065.

## Swyddog Brysbennu Twyll

Yn ystod 2020, cymerodd Tîm Troseddau Economaidd Heddlu Dyfed-Powys reolaeth ar yr holl achosion o dwyll a seiber droseddu a adroddwyd yn uniongyrchol i Heddlu Dyfed-Powys. Fe wnaethant frysbennu'r adroddiadau ac ymgysylltu â dioddefwyr cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi cyngor, arweiniad a chymorth arbenigol cyson ar y pwnc, ac i sicrhau bod yr achosion yn cael eu hadrodd yn gywir i Action Fraud.

Nodwyd y byddai rôl Swyddog Brysbennu Twyll o fewn y tîm yn hynod fuddiol i'r heddlu ac yn bwysig i ddioddefwyr twyll hefyd. Ar

**Prif rôl y Swyddog Brysbennu Twyll yw:**

- Cysylltu â phawb sy'n adrodd am achos o dwyll er mwyn rhoi cyngor, arweiniad a chymorth arbenigol ar y pwnc iddynt;
- Nodi'r bobl sy'n agored i niwed a phan fo angen, eu cyfeirio at Ymgyrch Signature;
- Cydgysylltu â'r Swyddog Diogelu rhag Twyll;
- Rhoi gwybod i Action Fraud, ar ran y dioddefwr, am bob achos o dwyll sy'n cael ei adrodd i'r heddlu; a
- Rhoi cyngor ac arweiniad i staff rheng flaen mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â thwyll.

gyfer blwyddyn ariannol 2022-23, parhaodd y comisiynydd i ariannu 50% o gyflog y rôl.

## Buddsoddi cymunedol

Dosbarthodd y comisiynydd gyllid i sefydliadau cymunedol ac elusennau hefyd er mwyn cefnogi pobl sy'n agored i niwed.

## Grymuso corfforol

Yn dilyn cyfarfod llwyddiannus gyda Physical Empowerment CIC, sef Cwmni Buddiannau Cymunedol sy'n darparu cyrsiau hunanamddiffyn a sesiynau codi ymwybyddiaeth i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig, cytunodd y comisiynydd i ariannu'r gwaith o ddatblygu prosiect peilot yn ardal Dyfed-Powys.

Cyfrannodd y comisiynydd £12,000 at y gweithgaredd hwn yn unol â'i ymrwymiad i sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu cefnogi.

Roedd y prosiect peilot yn cynnwys cyrsiau hunanamddiffyn corfforol ac yn ymgorffori cymorth gwytnwch meddyliol ac emosiynol. Gwnaeth y gweithgareddau hyn rymuso goroeswyr cam-drin domestig i barchu eu gofod personol eu hunain, bod yn hunanymwybodol, dweud 'na', hybu ymddygiad pendant a hunan-siarad cadarnhaol.

Mae'r prosiect peilot wedi bod yn llwyddiant ysgubol gyda chyfranogwyr yn darparu tystiolaeth gadarnhaol o'u profiadau ar y cwrs.

***"Rwy'n ddiolchgar am y cyfle hwn i newid fy mywyd."***

***Diolch i chi am y rhaglen hon, mae'n fuddiol iawn – yn emosiynol ac yn gorfforol.***

***Adborth gan lefarydd i Threshold Domestic Abuse:***

***Mae'r menwyod wrth eu boddau gyda'r sesiynau a byddent wrth eu boddau pe bai hyn yn parhau, maent wedi elwa'n fawr ar y sesiynau hyn … gadewch i mi wybod sut y gallwn helpu i gefnogi hyn wrth symud ymlaen.***

## *Pride* Sir Benfro

Mae *Pride* Sir Benfro'n cynnwys pobl LHDTC+ a heterorywiol neu bobl o bob rhyw ac o bob oed. Mae'r grŵp yn cael ei ysgogi gan brofiadau ei aelodau ei hun, y mae rhai ohonynt wedi cael profiadau uniongyrchol o droseddau casineb, bwlio ac aflonyddu.

Mae *Pride* Sir Benfro'n ceisio mynd i'r afael â'r diffyg cynhwysiant ac amrywiaeth yn Sir Benfro drwy ddarparu amgylchedd diogel a phwynt cyswllt canolog. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cymorth, cyngor a gwybodaeth i unrhyw un sy'n cael trafferth gyda'i hunaniaeth rywiol neu sydd wedi profi casineb.

Cytunodd y comisiynydd i ddyfarnu cyllid o £1,200 ar gyfer creu gwefan i hyrwyddo'i weithgareddau. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun Heddlu a Throseddu mewn perthynas ag ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y modd yr ydym yn cyflenwi ein gwasanaeth.

# Rhoi llais i ddioddefwyr – Y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr

## Y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr

Nod cyffredinol y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yw cydweithio i sicrhau bod y dioddefwyr yn cefnogi'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau rhagorol.

Drwy'r fforwm, mae'r comisiynydd yn parhau i ddarparu cyfleoedd i'r rhai sydd â phrofiad bywyd i gymryd rhan mewn trafodaethau lleol am flaenoriaethau cyfiawnder troseddol ac i cyd-lunio gwasanaethau lle bo'n briodol. Mae'n hanfodol bod ymgysylltu drwy'r fforwm yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu cyflenwi.

Isod, nodir rhai o'r gwasanaethau i ddioddefwyr a ystyriwyd gan y fforwm yn ystod y flwyddyn, y gweithgareddau a gyflawnwyd, ac yn bwysig iawn, canlyniad eu gwaith.

## Cynhadledd Cam-drin Domestig

- **Y gwasanaeth i ddioddefwyr a ystyriwyd:** Cael dealltwriaeth o daith dioddefwr ar draws y system cyfiawnder troseddol
- **Yr hyn y gofynnwyd i aelodau'r fforwm ei wneud:** Ymgysylltu â Chydlynydd Cynlluniau Cyflawnwyr Cam-drin Domestig a Stelcio Heddlu Dyfed-Powys, gan gyfleu eu profiadau o lywio'r broses cyfiawnder troseddol mewn perthynas â throseddau domestig.
- **Canlyniad:** Cynhaliodd Heddlu Dyfed-Powys gynhadledd cam-drin domestig, lle cafodd map dioddefwr ei arddangos, gan ddangos ei d/thaith drwy'r system cyfiawnder troseddol a'r effaith a gafodd hyn arno/arni a'r rhai sy'n agos ato/ati. Roedd rhai aelodau o'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr hefyd yn teimlo'n ddigon cyfforddus i roi mewnbwn yn ystod y gynhadledd, gan siarad am eu profiadau personol eu hunain o ddioddef cam-drin domestig.

## Uned Ymateb Rithwir Cam-drin Domestig

- **Y gwasanaeth i ddioddefwyr a ystyriwyd:** Lansiodd Heddlu Dyfed-Powys Uned Ymateb Fideo Cyflym newydd, fel rhan o ffocws yr heddlu ar weithio tuag at ddileu cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu. Mae'r gwasanaeth yn rhoi'r dewis i ddioddefwyr sy'n adrodd am ddigwyddiadau domestig nad oes angen ymateb brys, i siarad â swyddog dros alwad fideo. Bydd y rhai sy'n dewis hyn yn cael gwasanaeth fideo ar unwaith yn hytrach nag aros am ymweliad corfforol.
- **Yr hyn y gofynnwyd i aelodau'r fforwm ei ystyried:** Gofynnwyd i'r aelodau am eu syniadau a'u barn ar ymateb rhithwir newydd i adrodd am droseddau penodol. Roedd siarad ag aelodau'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn hanfodol a gwerthfawr o ran deall y dull priodol a'r ffordd briodol o weithredu ymateb rhithwir newydd i gam-drin domestig.
- **Canlyniad:** Aeth cynllun peilot dau fis yn fyw ym mis Ebrill 2023 yn Sir Gaerfyrddin, gyda'r nod o gyflwyno'r gwasanaeth ar draws ardal yr heddlu. Dywedodd dioddefwyr eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus yn gwybod na fyddai cymdogion yn ymwybodol o gysylltiad yr heddlu. Cafodd galwad fideo ar unwaith lai o effaith ar y bywyd teuluol ac roedd yn llai brawychus na'r syniad o fynd i orsaf heddlu.



- Dyfyniad gan Swyddog Heddlu Dyfed-Powys sy'n arwain y gwaith ymgysylltu gyda'r fforwm –

> *"Roedd yn hanfodol ein bod yn cysylltu ag aelodau'r fforwm ymgysylltu â dioddefwyr, ac yn gwrando arnynt, fel y gallent ein cynorthwyo gyda chynllun presennol yr uned a hefyd asesu a gweithredu'r ffyrdd o ymarfer er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth i ddioddefwyr o'r radd flaenaf ac yn ganolog i bopeth a wnawn."*

## CREST Advisory Research

- Y gwasanaeth i ddioddefwyr a ystyriwyd: Cafodd Crest Advisory, sef sefydliad ymgynghori trosedd a chyfiawnder, ei gomisiynu gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (AHGTAEF) i gefnogi ymchwil yr arolygiaeth i ba mor dda y mae'r system cyfiawnder troseddol yn diwallu anghenion dioddefwyr troseddau ledled Cymru a Lloegr.
- Yr hyn y gofynnwyd i aelodau'r fforwm ei wneud: Gofynnwyd i'r aelodau ymgysylltu â chydlynwyr y gwaith ymchwil hwn drwy fynychu cyfweliadau a gweithdai i ganolbwyntio ar ddeall profiadau o'r system cyfiawnder troseddol, a'r hyn y gellid ei wella.
- Canlyniad: Trefnwyd gweithdai cydgynhyrchu lle daethpwyd â'r holl ddioddefwyr a oedd wedi cymryd rhan yn y cyfweliadau ledled Cymru a Lloegr ynghyd i drafod eu hargymhellion i wella profiad dioddefwyr. Bydd canlyniad y gwaith ymchwil hwn yn llywio arolygiadau cyfiawnder troseddol yn y dyfodol ac yn tanategu sut mae'r system cyfiawnder troseddol yn ymateb i anghenion dioddefwyr wrth symud ymlaen. Mae'r adroddiad sy'n deillio o hyn i'w gyhoeddi gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yn ystod haf 2023.

Roedd y gweithgareddau eraill a gyflawnwyd gan aelodau'r Fforwm yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Darparu barn ac adborth i Wasanaeth Dioddefwyr a Thystion Goleudy ar y deunyddiau gwybodaeth ar Safleoedd Tystiolaeth Cyswllt Fideo Diogel ar gyfer dioddefwyr;
- Arolwg ar-lein a grwpiau ffocws ar-lein i drafod eu profiadau o ddefnyddio'r Gwasanaeth Cynghorol Annibynnol ar Drais Domestig, y cafodd y canlyniadau ohonynt eu defnyddio yn y broses o ddatblygu manyleb ar gyfer cytundeb y Gwasanaeth Cynghorol Annibynnol ar Drais Domestig newydd ar gyfer yr heddlu cyfan;
- Gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan aelodau'r fforwm mewn eistedd ar Fwrdd Cynghori Comisiynu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu; a
- Gwahoddiadau i ymuno â'r comisiynydd yn seremoni agoriadol ymweliad yr Angel Cyllyll ag Aberystwyth ym mis Mehefin.

Mae Heddlu Dyfed-Powys a'i bartneriaid wedi gofyn am adborth gan y fforwm yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Anogir partneriaid cyfiawnder lleol eraill i ymgysylltu â dioddefwyr drwy'r platfform hwn.

## Cylch gorchwyl newydd i gefnogi dull strwythuredig o ymgysylltu â dioddefwyr

Cafodd cylch gorchwyl y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr ei adolygu a'i ddiweddaru yn barod ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. Hyd at 2023, yr unig wybodaeth a oedd wedi cael ei chadw ar y gronfa ddata ar gyfer pob aelod oedd ei enw a'i fanylion cyswllt dewisol. O ganlyniad i'r dull diwygiedig, bydd swyddfa'r Comisiynydd yn casglu data ychwanegol gan aelodau'r fforwm mewn perthynas â'r drosedd y maent wedi bod yn ddioddefwr / goroeswr ohono, data demograffig a lle maent yn byw. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r swyddfa ymgymryd â dull strwythuredig, penodol i drosedd, o gyflawni gwaith ymgysylltu wedi'i dargedu. Bydd hefyd yn galluogi'r comisiynydd a phartneriaid i asesu a yw adborth o weithgareddau ymgysylltu yn gynrychioliadol, wrth leihau'r blinder ag ymgynghoriadau a deimlir ymhlith cyfranogwyr.



## Cod ymarfer i ddioddefwyr troseddau

Mae gan y comisiynydd ddyletswydd ar y cyd â phartneriaid i gydymffurfio â'r cod ymarfer i ddioddefwyr. Mae yn nodi hawliau dioddefwyr a'r safon ofynnol y mae'n rhaid i sefydliadau ar draws y sector cyfiawnder troseddol ei darparu i ddioddefwyr.

Mae'r ffeithlun yn y ddolen ganlynol yn nodi'r 12 hawl sydd gan ddioddefwyr:
Cod Dioddefwyr (cyhoeddi.gwasanaeth.gov.uk)

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022/23, dechreuodd tîm y comisiynydd samplu ar hap bob chwarter er mwyn dadansoddi cydymffurfedd partneriaid â'r cod. Gofynnir i bartneriaid ystyried deg achos (cymysgedd o achosion o gam-drin domestig, troseddau casineb ac achosion o dreisio / troseddau rhywiol difrifol) a rhoi gwybod am eu cydymffurfedd â'r hawliau perthnasol yn y gwasanaeth a ddarparwyd ganddynt i bob dioddefwr.

Caiff canfyddiadau pob ymarfer chwarterol eu trafod yng nghyfarfodydd Is-grŵp Dioddefwyr a Thystion y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (BCTLl), a chaiff unrhyw bryderon neu feysydd o arfer gorau eu codi ym mhrif gyfarfodydd y Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol.

# Blaenoriaeth 2: Atal niwed

## Angel Cyllyll




Ym mis Mehefin 2022 fe wnaeth y comisiynydd gefnogi a noddi ail ymweliad yr Angel Cyllyll â Chymru.

Croesawodd y comisiynydd y cerflun i'r Drenewydd, Powys y tro cyntaf, ym mis Ionawr 2020, ac yn ddiweddarach i Sgwâr Llys y Brenin yn Aberystwyth, fel ffordd ffisegol o'n hatgoffa am effeithiau trais ac ymddygiad ymosodol.

Fel rhan o'r ymweliad â Cheredigion, cydlynodd swyddfa'r comisiynydd gweithdai addysgol a gweithgareddau ymgysylltu yn nhref Aberystwyth dros 28 diwrnod, ochr yn ochr â nifer o bartneriaid. Cafodd plant a phobl ifanc, trigolion lleol, grwpiau cymunedol, partneriaid ac ymwelwyr â'r ardal eu gwahodd a'u hannog i gymryd rhan.

Rhannwyd negeseuon allweddol ynghylch atal gwrth-drais a gwrth-ymosodedd eu drwy gydol y mis, gan alluogi pobl, ac yn bwysig iawn, pobl ifanc, i wrthwynebu trais ac ymddygiad ymosodol o bob math, nid troseddau cyllyll yn unig.

Er y bu cynnydd o 105% mewn troseddau cyllyll yng Nghymru dros y ddegawd ddiwethaf, ni ddaethpwyd â'r Angel Cyllyll i Aberystwyth oherwydd bod unrhyw broblem fawr gyda'r math yma o drosedd yn yr ardal. Fodd bynnag, rhaid inni beidio â bod yn hunanfodlon, a gobaith y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yw i'n cymunedau barhau'n ddiogel a'n bod yn mabwysiadu dull ataliol o leihau trosedd dros yr hirdymor. Helpodd yr Angel Cyllyll i godi ymwybyddiaeth feirniadol o droseddau cyllyll gan greu anoddefiad eang i ymddygiad treisgar yn ein cymunedau.

**Dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn:**

> *"Rwy'n cael fy ysgogi i weld Dyfed-Powys yn barhaus fel rhywle sy'n ddiogel i fyw, gweithio ac astudio ynddo, ac rwyf am i'n pobl ifanc deimlo'n ddiogel. Ni fydd unrhyw fath o drais ac ymddygiad ymosodol yn cael eu goddef. Roeddwn yn falch o'r hyn a gyflawnwyd gennym ym mis Mehefin gydag ymweliad yr Angel â Cheredigion. Ardal Dyfed-Powys yw'r ardal fwyaf diogel yng Nghymru a Lloegr; mae gennym gyfraddau troseddu isel, lefelau isel o droseddau treisgar ac yn sicr lefelau isel o droseddau cyllyll, ond nid ydym yn imiwn. Mae neges yr Angel Cyllyll yn ymwneud ag atal gan fy mod yn cael fy ysgogi yn barhaus i weld ardal Dyfed-Powys fel y lle mwyaf diogel."*
>
> Dafydd Llywelyn

**Dywedodd Maer Tref Aberystwyth, Dr Talat Chaudhri,**

> *"Rydym yn croesawu'r Angel Cyllyll i Aberystwyth ac yn sefyll gyda'n gilydd mewn trefi a dinasoedd lle mae troseddu cyllyll yn fwy o broblem nag ydyw yma. Does dim lle i drais o unrhyw fath yn ein cymuned."*

Mae rhagor o wybodaeth am ymweliad Yr Angel Cyllyll ag Aberystwyth, Ceredigion ar gael yma: knife-angel-report-2022-final.pdf (dyfedpowys-pcc.org.uk)

## Buddsoddi mewn gwasanaethau arbenigol i atal niwed

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23, parhaodd y comisiynydd i ariannu gwasanaethau hanfodol gyda'r nod o ddarparu ymyrraeth gynnar a chefnogi troseddwyr i droi i ffwrdd o droseddu.

## Y Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr

Mae'r Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr, a ddarperir gan wasanaeth Gofal a Chymorth Pobl, yn cwmpasu ardal Dyfed-Powys yn ei chyfanrwydd ac mae bellach yn gynllun sydd wedi'i hen sefydlu.

Mae'n ei gwneud yn bosibl i droseddwyr cymwys gael y cymorth a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt i gadw allan o'r system cyfiawnder troseddol. Ei nod yw mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol yn llawer cynharach yn nhaith droseddu unigolyn drwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu a materion cysylltiedig sy'n ymwneud ag iechyd a'r gymuned.

Drwy ddarparu'r ymyrraeth gynnar hon, mae Pobl yn rhoi cymorth ac arweiniad i droseddwyr lefel isel i gael mynediad at wasanaethau a gwneud dewisiadau gwell. Mae gan hyn y potensial i leihau'r galw nid yn unig ar blismona a chyfiawnder troseddol, ond hefyd ar asiantaethau a gwasanaethau iechyd eraill.

> *"Mae'r cynllun yn parhau i gyflawni drwy roi ail gyfle i bobl. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, atgyfeiriwyd mwy na dwywaith y nifer o droseddwyr ag a atgyfeiriwyd yn 2021/2022. Llwyddodd llawer i gwblhau'r cynllun a arweiniodd, yn hollbwysig, at ostyngiad mewn aildroseddu."*
>
> Dafydd Llywelyn


Mae'r cynllun hefyd yn anelu at leihau nifer y dioddefwyr troseddau drwy gynnig rhaglen pedwar mis o ymyriadau i droseddwyr cymwys fel dewis amgen i gael eu herlyn. Darperir asesiad cynhwysfawr i droseddwyr, a datblygir rhaglen gymorth, gyda mynediad uniongyrchol at asiantaethau megis Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed (DDAS) a Kaleidoscope. Rhaid i'r troseddwyr ymatal rhag troseddu drwy gydol yr ymyriad. Os byddant yn aildroseddu, gellir eu cymryd yn ôl drwy'r llwybr erlyn gwreiddiol.

Yn ystod 2022-23, mae swyddfa'r Comisiynydd a chydweithwyr yn yr heddlu wedi gweithio'n agos â'i gilydd i sicrhau bod prosesau atgyfeirio at y cynllun yn cael eu hawtomeiddio lle bynnag y bo modd, a bod pob trosedd gymwys yn cael ei nodi. Mae hyn wedi sicrhau bod capasiti'r Cynllun yn cael ei gynyddu i'r eithaf a bod cynifer o droseddwyr yn cael eu cefnogi â phosibl:

> *"Doeddwn i ddim yn deall pam fod angen i mi ymgysylltu â chynllun ar ôl i mi gael fy arestio, mewn gwirionedd roeddwn i'n eithaf swta gyda'r gweithiwr pan ffoniodd e fi am y tro cyntaf. Rwy'n ddiolchgar na roddodd e'r gorau i mi, a'i fod wedi cymryd yr amser i egluro pam fod y cynllun wedi cael ei gyflwyno a beth oedd y disgwyliadau ohonof i. Gofynnodd e i mi a oedd gen i unrhyw beth yr oeddwn i angen cymorth ag e, neu a oeddwn i'n cael trafferth gydag unrhyw beth. Atebais na, oherwydd doeddwn i ddim yn meddwl y byddai'n gallu fy helpu. Roedd e'n ddyfal a rhoddodd e nifer o enghreifftiau o bethau y gallai'r cynllun helpu gyda nhw. Er mawr sioc i mi, roedd e'n gallu fy helpu gyda nifer o broblemau roeddwn i wedi bod yn dioddef gyda nhw ers amser maith. Dri mis yn ddiweddarach ac rwyf wedi gwneud nifer o newidiadau i fy nghartref, sy'n golygu fy mod i'n gallu cael cawod yn ddiogel, mae trothwy fy nrws ffrynt wedi'i newid er mwyn i mi allu mynd i mewn ac allan o'm cartref. Nid wyf bellach yn rhwystredig gyda fy nghartref a'r sefyllfa yr oeddwn i'n byw ynddi. Mae fy iechyd meddwl wedi gwella ac rwy'n edrych ymlaen at yfory yn hytrach na'i ofni. Fel person hŷn, roeddwn i'n teimlo bod cymdeithas wedi anghofio amdanaf i. Nawr rwy'n sylweddoli nad ydyn nhw wedi gwneud hynny. Doeddwn i ddim yn gwybod ble i gael cymorth. Rydw i ar y rhestr aros ar gyfer byw â chymorth. Mae hyn i gyd oherwydd y cymorth gan y cynllun Dargyfeirio."*

Dyfyniad gan unigolyn a gefnogwyd gan y Cynllun.

- Cafodd 1,101 o droseddwyr eu hatgyfeirio.
- Ymgysylltodd 88% â'r gwasanaeth.
- Y prif anghenion o fewn y garfan oedd: agweddau, meddwl ac ymddygiad, camddefnyddio sylweddau, addysg, llety, cyllid a dyled budd-daliadau, ac iechyd meddwl. Bydd gweithwyr cynllun dargyfeirio yn sicrhau bod pecyn cymorth yn ei le i fynd i'r afael â'r anghenion hyn, gyda rhywfaint o hyn yn cael ei ddarparu gan Pobl a rhai achosion yn gofyn am gael eu hatgyfeirio ymlaen at asiantaethau arbenigol.
- Llwyddodd 87% i gwblhau a gadael y cynllun ar ôl y cyfnod o bedwar mis. Mae'r canlynol ymhlith y canlyniadau ychwanegol:
  - roedd 87% yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i wneud newidiadau cadarnhaol.
  - dywedodd 88% bod diogelwch wedi gwella.



## Gwasanaethau camddefnyddio sylweddau

Gan gefnogi Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, nod y gwasanaethau hyn a gomisiynir ar y cyd, a ddarperir gan Wasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed (DDAS) yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, a Kaleidoscope ym Mhowys, yw lleihau'r niwed i ddefnyddwyr gwasanaethau, pobl arwyddocaol eraill, a'r gymuned ehangach sy'n deillio o gamddefnyddio sylweddau.

Mae'r comisiynydd yn ariannu'r gwasanaethau hyn ar y cyd fel rhan o gontract ehangach a rennir ag asiantaethau partner o fewn y Byrddau Cynllunio Ardal, gan gynnwys y sector iechyd, Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi. Mae'n hanfodol bod y gwasanaethau hyn yn gweithio mewn ffordd ragweithiol i dargedu'r rhai sy'n achosi aflonyddwch mewn cymunedau lleol ond nad ydynt eto'n ymgysylltu'n weithredol â gwasanaethau. Mae'r ddau sefydliad yn gweithio i nodi ac ymgysylltu â throseddwyr o'r pwynt arestio hyd at y ddedfryd, ac i uchafu cyfran yr unigolion sy'n cwblhau rhaglenni triniaeth yn llwyddiannus.

**Yn ystod 2022-23:**

- Atgyfeiriodd cydweithwyr yn yr heddlu gyfanswm o 426 o unigolion ar gyfer triniaeth camddefnyddio sylweddau. Mae hyn yn cynnwys y rhai y rhoddwyd rhybuddion amodol iddynt ac unigolion a brofwyd wrth eu harestio yn y ddalfa.
- Yn 42% o'r achosion cymwys a atgyfeiriwyd, manteisiwyd ar y cynnig o driniaeth a chymorth.
- Gadawodd 56% o unigolion y gwasanaeth gyda'u hachos wedi'i gau yn gadarnhaol e.e. bod yn rhydd rhag cyffuriau neu'n cwblhau triniaeth.
- Yn ardal Hywel Dda, roedd 67% o'r achosion a atgyfeiriwyd yn ymwneud â chamddefnydd alcohol sylfaenol tra ym Mhowys roedd 80% o'r achosion a atgyfeiriwyd yn ymwneud â chamddefnydd cyffuriau sylfaenol.

Yn ystod 2022-23 mae swyddfa'r Comisiynydd a chydweithwyr yn yr heddlu wedi gweithio'n agos gyda'r gwasanaethau i wella'r cymorth a ddarperir yn y dalfeydd ac i droseddwyr sy'n profi'n bositif am sylweddau ar adeg eu harestio. Maent hefyd yn gweithio'n agos gydag asiantaethau partner i sicrhau bod y cymorth hwn yn parhau tra bo'r unigolion yn y carchar ac ar ôl eu hailintegreiddio i gymunedau.

## Nycsoid / Nalocson

Mae swyddogion o fewn Heddlu Dyfed-Powys bellach yn cario nycsoid sef fersiwn chwistrell trwyn o nalocson. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn dilyn dull aml-asiantaeth ac mae partneriaid y Bwrdd Cynllunio Ardal wedi hyrwyddo'r defnydd o nalocson mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Mae nod y Comisiynydd i gefnogi dioddefwyr ac atal niwed yn cael ei gyflawni drwy weithgareddau dargyfeiriol ac ataliol rhagweithiol ac arloesol, yn ogystal â addysgu cymunedau. Yn nodedig, ers cyflwyno nalocson i swyddogion heddlu a nyrsys mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, mae ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi gweld gostyngiad yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Dywedodd y Prif Arolygydd Christina Fraser:

> *"Mae effaith yr holl asiantaethau partner, yn gweithio gyda'i gilydd yn hollol benderfynol, i leihau'r niwed diangen mae cyffuriau anghyfreithlon yn ei achosi, yn arwain at ganlyniadau gwirioneddol ddiriaethol a sylweddol i'r defnyddwyr gwasanaethau. Rydym yn gyffrous am y dyfodol o safbwynt lleihau niwed."*

# Buddsoddi mewn mentrau cymunedol

Yn 2022-23, parhaodd y comisiynydd i fuddsoddi mewn mentrau a grwpiau cymunedol lleol i'w galluogi i weithio gyda'u cymunedau i atal niwed.

## *'Premier League Kicks'* Uwch Gynghrair

Mae'r cyllid tair blynedd a ddyfarnwyd i Sefydliad Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe yn 2021 yn parhau i gael effeithiau cadarnhaol amlwg ar bobl ifanc yn ardal Dyfed-Powys.

Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ddarparu gweithgareddau iechyd corfforol i hybu llesiant; gweithgareddau datblygiad ymarferol a chymdeithasol i wella sgiliau bywyd a chefnogaeth sensitif i osgoi llwybrau troseddol.

Ym mis Mawrth 2023, enillodd gwirfoddolwraig ifanc, sy'n gwirfoddoli fel hyfforddwraig ar y rhaglen yng Nglan-y-môr, Llanelli, Wobr Hyrwyddwraig Cymunedol yng Ngwobrau Cenedlaethol Plant Cymru.

Mae Ashlee Charles, myfyrwraig Hyfforddiant Chwaraeon yng Ngholeg Sir Gâr, wedi bod yn wirfoddolwraig rheolaidd ar brosiect *'PL Kicks'* ers dwy flynedd, gan wirfoddoli ar draws tair sesiwn wahanol bob wythnos. Yn ystod y flwyddyn hon bu hefyd yn gyfrifol am redeg y grwpiau i ferched yn unig.




**Craig Richards, Rheolwr Ymgysylltu Ieuenctid gyda Chlwb Pêl-droed Dinas Abertawe. Dywedodd y sefydliad,**

> *"Rydym yn arbennig o falch o'r effaith y mae ein rhaglen 'Kicks' yn ei chael ar y gymuned, yn enwedig ar bobl ifanc yn Abertawe ac ardal Dyfed-Powys. Mae'r ffaith y bydd Ashlee yn cael ei gwobrwyo'n Bencampwr Cymunedol yng Ngwobrau Cenedlaethol Plant Cymru yn gyflawniad anhygoel ac yn foment arbennig iawn iddi.*
>
> *Mae Ashlee yn deall y prosiect ac, ar ei phen ei hun, mae hi wedi cynyddu nifer y gweithgareddau y mae'r grŵp yn eu gwneud, gan alluogi cyfranogwyr yn – enwedig y merched – i gymryd rhan mewn gweithgareddau na fydden nhw fel arfer wedi gallu eu gwneud, ac mae hefyd wedi bod yn allweddol wrth ddenu cyfranogwyr newydd i'r grŵp.*
>
> *Mae'r rhieni'n sôn cymaint y mae hyfforddiant Ashlee yn rhoi llwyth o hyder a hunan-barch i'w plant, nad oedd yno cyn i'r sesiynau ddechrau. Mae ei natur anhunanol a'i greddfau caredig a gofalgar yn disgleirio trwy bopeth y mae'n ei wneud, ac mae hi bob amser yn sicrhau ei bod hi ar gael ar gyfer pob gweithgaredd a digwyddiad. Mae hi wedi dod yn aelod amhrisiadwy o'n tîm."*

**Dywedodd Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn:**

*"Pleser oedd bod yn Seremoni Gwobrau Cenedlaethol Plant Cymru heno i weld Ashlee yn derbyn ei gwobr. Mae ei gwaith gyda Sefydliad Clwb Pêl Droed Dinas Abertawe yn gwella bywydau cyfranogwyr 'PL Kicks' yng Nglan-y-môr, Llanelli yn aruthrol.*

*A hithau ond yn un ar bymtheg oed, mae hi'n fodel rôl i'r holl gyfranogwyr, a dylai fod yn hynod falch ohoni ei hun. Llongyfarchiadau iddi am ennill y wobr wych hon, ac rwy'n edrych ymlaen at ei gweld yn datblygu fel hyfforddwraig ac arweinydd ar gyfer y dyfodol.*

*Drwy weithio gyda Sefydliad Dinas Abertawe i gyflwyno'r fenter 'PL Kicks' i ardaloedd o fewn rhanbarth Dyfed-Powys, roeddwn am geisio lleihau faint o ymddygiad gwrthgymdeithasol a nifer y bobl ifanc sy'n ymgynnull, fel y byddech yn ei ddisgwyl gyda'r nos, a rhoi opsiwn arall iddynt.*

*Pa ffordd well o wneud hynny nag ymgysylltu drwy bêl-droed? Mae'n rhoi cyfle i blant a phobl ifanc i gael gwared ar rai o'u rhwystredigaethau ac yn eu galluogi i losgi ychydig o egni.*

*Mae'r sesiynau'n cael dylanwad cadarnhaol ar bobl ifanc ac yn meithrin cymunedau cryfach er mwyn lleihau ac atal trosedd."*

## Tymor 2021-22 (Medi 2021 i Awst 2022)

Mae Sefydliad Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe yn darparu adroddiadau ar weithgareddau i'r comisiynydd ar ddiwedd pob tymor pêl-droed. Mae'r data canlynol yn adlewyrchu'r tymor a ddaeth i ben o fewn y cyfnod adrodd ar gyfer 2022-23.

**YMGYSYLLTU:** 1368

**WEDI'U CADW:** 579

**WEDI PARHAU:** 411

**PRESENOLDEB:** 10,268


**SESIYNAU:** 298

**LLEOLIADAU:** 5

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol gan bobl ifanc wedi lleihau yn y rhan fwyaf o'r lleoliadau sy'n cynnal y prosiect hwn. Mae hyn yn dangos yr effaith gadarnhaol y mae'r fenter hon yn ei chael ar y gymuned gyfan. Mae cymharu'r data o ffigurau a ddarparwyd gan Heddlu Dyfed-Powys yn amlygu'r gostyngiad cyffredinol hwn, er y bu cynnydd yng Nghaerfyrddin a chymerwyd camau i wella'r ffigurau hyn ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf.

| Tymor | 20-21 | 21-22 | Gostyngiad |
|---|---|---|---|
| Aberystwyth | 347 | 290 | 16% |
| Caerfyrddin | 253 | 280 | -11% |
| Y Drenewydd | 190 | 157 | 17% |
| Penfro | 189 | 155 | 18% |
| Glan-y-môr | 473 | 314 | 34% |

## Adborth gan gyfranogwyr




## Adborth gan rieni

### Ers mynychu PL Kicks...



Mae **82%** yn teimlo fod eu plant yn fwy hyderus



Mae **78%** yn teimlo fod lles meddwl eu plant wedi gwella



Mae **86%** yn teimlo fod eu plant wedi datblygu eu sgiliau cymdeithasol






# Bocsio INTACT

Yn 2022, gofynnodd dau Swyddog Cymorth Cymunedol INTACT yr Heddlu am gyllid gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i ddechrau clwb ymyrraeth BOXWISE yn Sir Benfro. Mae INTACT yn rhaglen bartneriaeth aml-asiantaeth sy'n mynd i'r afael â thrais difrifol a throseddau cyfundrefnol. Mae BOXWISE yn fenter gymdeithasol genedlaethol sy'n helpu pobl ifanc i fagu hyder, gwella'u hiechyd a'u llesiant a gwneud y mwyaf o bob cyfle sydd ar gael iddynt.

Roedd nodau'r prosiect yn cynnwys rhoi cyfle i bobl ifanc, sydd mewn perygl o ymwneud â thrais difrifol a throseddu cyfundrefnol, ganolbwyntio ar weithgareddau cadarnhaol. Roedd hefyd yn eu cyfeirio i ffwrdd o lwybrau troseddol,gan atal niwed ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y dyfodol.

Cytunodd y comisiynydd i gyfrannu £990 at y prosiect gwerth chweil hwn a rhoddodd adborth cadarnhaol i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) am eu gwaith amhrisiadwy ar y fenter hon.

Cyflwynodd y comisiynydd hefyd Wobr Partneriaeth y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i'r prosiect hwn yng Ngwobrau Heddlu Dyfed-Powys ym mis Mawrth 2023.

Ar ôl gweld llwyddiant y gwaith ymyrryd sy'n digwydd yn Sir Benfro, cytunodd menter gymdeithasol genedlaethol BOXWISE i ariannu un bloc o sesiynau ymyrraeth am ddeg wythnos fesul Ardal Blismona Leol yn ardal Dyfed-Powys tan fis Ionawr 2023, a oedd yn cynnig cyfle i fwy na 50 o bobl ifanc i wneud rhaglen focsio deg wythnos yn Llanelli, Aberhonddu, Treletert a Llandysul.

Oherwydd poblogrwydd a llwyddiant y sesiynau yn yr ardaloedd hyn, mae BOXWISE wedi cytuno i ariannu rhaglenni pellach yn Noc Penfro, Rhydaman, Aberystwyth a'r Drenewydd.




***Dywedodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu Laura Edward**:*

> *"Fe wnaeth y cyllid gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu helpu i ddarparu'r dosbarth ymyrraeth i fwy na chant o bobl ifanc yn Sir Benfro. Mae rhai o'r bobl ifanc hyn wedi parhau i focsio ac maen nhw bellach yn mynychu'r clwb yn rheolaidd ac cadw oddi ar y strydoedd."*

***Dywedodd Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn, yn seremoni Gwobrau'r Heddlu ym mis Mawrth 2023;***

> *"Hoffwn achub ar y cyfle hwn i longyfarch Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Laura Edward a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Rachel O'Neill am ennill y Wobr Bartneriaeth heddiw. Mae'r rhaglen ymyrraeth bocsio wedi mynd o nerth i nerth dros y chwe mis diwethaf yn dilyn y cynllun peilot a ariannwyd gen i yn Sir Benfro yn 2022.*
>
> *Mae'r fenter yn cael effaith gadarnhaol ar gannoedd o fywydau ifanc yn ardal Dyfed-Powys, ac mae hynny oherwydd ymrwymiad ac ymroddiad Laura a Rachel.*
>
> *Mae gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu a phrosiectau allweddol fel ymyriad BOXWISE yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r ffordd mae'r heddlu'n gweithredu, ac mae hynny'n cael ei weld a'i deimlo gan y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu."*



## The Hive

Llwyddodd y prosiect hwn, sydd wedi'i leoli yn ardal Garth, Hwlffordd, i wneud cais llwyddiannus am gronfeydd lluosog i weithredu Cwrt Cruyff. Mae Cwrt Cruyff yn cynnig prosiect gweithgareddau aml-swyddogaeth sy'n darparu man cymunedol diogel i wella iechyd corfforol a llesiant emosiynol.

Mae teuluoedd sy'n byw yn yr ardal yn profi lefelau uchel o dlodi ac anfanteision i blant. Mae hyn yn golygu nad yw teuluoedd yn gallu cael mynediad at gyfleoedd chwaraeon, na chymryd rhan ynddynt na chefnogi eu plant ynddynt. Mae'r prosiect wrth galon y gymuned ac yn cyfrannu at leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwella hyder y cyhoedd a lleihau niwed.

Ochr yn ochr â chyllid arall a dderbyniwyd oddi wrth Gemau Stryd Cymru, Chwaraeon Cymru a Sefydliad Cruyff, cyfrannodd y Comisiynydd £10,000 at y prosiect teilwng hwn.

## Pawennau ar Batrôl

Gweithiodd Heddlu Dyfed-Powys a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar y cyd i lansio 'Cynllun Pawennau ar Batrôl' o fewn ardal Dyfed-Powys.

Y nod yw defnyddio pobl sy'n mynd â'u cŵn am dro i helpu i frwydro yn erbyn trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy adrodd a chasglu tystiolaeth tra'u bod allan yn cerdded eu hanifeiliaid anwes. Bydd aelodau'n cael pecyn croeso a chylchlythyrau bob deufis gyda gwybodaeth a chyngor atal trosedd.

Darparodd y comisiynydd rodd elusennol o £877.50 i helpu i sefydlu'r cynllun.

# Buddsoddiad gyda phartneriaid

Buddsoddodd y comisiynydd arian ochr yn ochr â phartneriaid mewn prosiectau sydd â'r nod o atal niwed.

## Cyllid Strydoedd Mwy Diogel y Swyddfa Gartref

Gan weithio gyda phartneriaid megis Cyngor Sir Caerfyrddin, Gwasanaethau Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru a Heddlu Dyfed-Powys, lluniodd swyddfa'r comisiynydd gais am arian o gronfa Strydoedd Mwy Diogel y Swyddfa Gartref a gafodd ei gyflwyno ar gyfer sawl prosiect. Yn ystod hydref 2022, dyrannwyd cyllid gwerth cyfanswm o £292,761 dros ddwy flynedd ariannol.

Parhaodd y gwaith tua diwedd 2022-23 er mwyn symud ymlaen â phrosiectau'r cais:

- Rhaglen Hyrwyddwyr Cymunedol – Gan weithio mewn partneriaeth â Gwasanaethau Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru, nod y prosiect yw cyflwyno rhaglen codi ymwybyddiaeth ac addysgiadol mewn perthynas â stelcio, aflonyddu a throseddau casineb, i gefnogi'r broses o weithio tuag at greu strydoedd a chymunedau mwy diogel. Nod y prosiect yw darparu 20 o raglenni Hyrwyddwyr Cymunedol, recriwtio 200 o Hyrwyddwyr Cymunedol a hwyluso dau ddigwyddiad dysgu a rhannu arfer. Hyd yma mae'r rhaglen wedi'i chyflwyno'n llwyddiannus i fwy na 100 o bobl. Bydd y prosiect hwn yn parhau dros y flwyddyn nesaf.

- Menter Cymorth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YG) – Cafodd y prosiect hwn ei arwain gan Heddlu Dyfed-Powys yn gweithio gyda Menter Cymorth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Mae'r elusen genedlaethol hon yn canolbwyntio ar leihau effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ddioddefwyr a chefnogi ymarferwyr i reoli achosion yn effeithiol. Darparodd y prosiect pum niwrnod olynol o hyfforddiant i'r heddlu a phartneriaid allweddol mewn perthynas ag offer a phwerau ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r broses ysgogi cymunedol. Cyflwynwyd y digwyddiad i 421 o unigolion a chodwyd ymwybyddiaeth o becyn cymorth ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ystod y digwyddiad, cytunwyd bod gweithio mewn partneriaeth ar y cyd yn hollbwysig wrth reoli ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol o ddydd i ddydd. Nododd 87% o'r rhai a fynychodd y digwyddiad eu bod yn meddwl ei fod yn dda neu'n rhagorol.

- Unedau Lleoli Teledu Cylch Cyfyng yr Uned Cymorth Technegol – Cafodd 14 o gamerâu agored a chudd eu prynu gyda'r nod nid yn unig o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ond hefyd trais yn erbyn menywod a merched a throseddau meddiangar. Mae'r ymyriad yn gweithio'n uniongyrchol drwy atal troseddwyr rhag defnyddio dulliau amlwg gan hefyd cefnogi'r gwaith o ganfod troseddwyr drwy dactegau cudd.

- Cydlynydd Ymyriadau Atal y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid – mae'r rôl wedi'i lleoli yng Nghyngor Sir Caerfyrddin ac mae'r sawl sy'n ei gwneud yn gweithio'n agos gyda Heddlu Dyfed-Powys i asesu a darparu ymyriadau ar gyfer plant a phobl ifanc 8-18 oed, gyda'r nod o leihau eu risg o gyflawni troseddau neu ymddwyn yn wrthgymdeithasol. Mae'r cydlynydd yn ymateb i'r mannau problemus a nodwyd ac mae'n defnyddio dulliau sy'n ystyriol o drawma wrth gynllunio a darparu ymyriadau.

Bydd y prosiectau hyn yn parhau i gael eu monitro gan swyddfa'r comisiynydd wrth iddynt barhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd y swyddfa hefyd yn paratoi i wneud cais am unrhyw rowndiau pellach o gyllid Strydoedd Mwy Diogel.




## Prosiect Rhanbarthol Stelcio a Chyflawnwyr


Mae'r comisiynydd yn bartner allweddol i Fwrdd Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r bwrdd wedi sefydlu nifer o gynlluniau ac ymyriadau peilot ar gyfer y rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig, y mae rhai ohonynt yn enghreifftiau o arfer gorau o gyflawni mewn ardaloedd gwledig. Mae'r rhain yn cynnwys dulliau arloesol o ddarparu cymorth ar-lein i gyrraedd unigolion mewn ardaloedd lle nad yw gwaith grŵp yn ymarferol oherwydd heriau lleoliad a mynediad. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi gweithio'n agos gydag arbenigwyr academaidd i ddarparu ymyriad ar gyfer cyflawnwyr stelcio, lle mae'r cymorth seicolegol sydd ei angen yn wahanol i'r cymorth seicolegol sydd ei angen ar gyfer cam-drin domestig neu rywiol. Mae'r comisiynydd yn rhoi cyfraniad o £19,850 y flwyddyn i'r gwaith hwn fel rhan o drefniant cydberchnogaeth a chyllid rhwng partneriaid allweddol.

Mae tîm y comisiynydd hefyd yn cyflwyno ceisiadau am ffynonellau cyllid ychwanegol yn rheolaidd. Maent eisoes wedi sicrhau incwm gan y Swyddfa Gartref am nifer o flynyddoedd er mwyn gwella'r cymorth a gynigir i gyflawnwyr a'u teuluoedd. Yn ystod 2022-23, dyfarnwyd cyfanswm o £410,597 i'r Comisiynydd yn llwyddiannus yn dilyn cais i'r Swyddfa Gartref am y cyllid ar gyfer y cynllun Cyflawnwyr Cam-drin Domestig. Golygodd hyn y bu'n bosibl darparu nifer o gynlluniau gan gynnwys:

- Rhaglen Ysbrydoli Teuluoedd – partneriaeth dan arweiniad Gwasanaethau Cam-drin Domestig Calan, sy'n cynnig rhaglen 10 wythnos i gyflawnwyr a'u teuluoedd lle mae cam-drin domestig yn cael ei gydnabod ond bod y teulu'n dymuno aros gyda'i gilydd. Mae'r dioddefwr a'r cyflawnwr yn gweithio mewn grwpiau ar wahân drwy gydol y rhaglen gyda phlant a phobl ifanc yn derbyn cefnogaeth unigol ochr yn ochr.
- Mae cydlynydd cyflawnwyr o fewn Heddlu Dyfed-Powys yn gweithio i nodi cyflawnwyr cymwys yn effeithiol, rheoli risg a chydgysylltu atgyfeiriadau i'r ymyriad perthnasol. Mae'r cydlynydd hefyd yn monitro cynnydd ac effaith ymyriadau drwy olrhain cyfraddau gadael ac euogfarnau dilynol.
- Hyfforddiant pwrpasol gan arweinydd cenedlaethol cydnabyddedig ym maes ymchwil stelcio i gynorthwyo'r broses o godi ymwybyddiaeth a defnyddio gorchmynion atal stelcio, a'r gwaith o wneud atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth arbenigol.
- Buddsoddi mewn hyfforddiant ar gyfer swyddogion rheng flaen ym mhob asiantaeth bartner ac asiantaeth darparwr ynghylch cam-drin gan blant i rieni, a materion eraill sy'n dod i'r amlwg.

Bydd y comisiynydd yn lobïo'r Swyddfa Gartref am barhad cyllid hanfodol o'r fath ac y dylid dyfarnu hwn i bob maes heb fod angen i gomisiynwyr gyflwyno ceisiadau yn erbyn ei gilydd er mwyn cael arian.





## Troseddau cefn gwlad

Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Prifysgol Aberystwyth, y trydydd rhifyn mewn cyfres o werthusiadau a ariannwyd gan y comisiynydd o waith ar droseddau cefn gwlad a gyflawnwyd yn ardal Dyfed-Powys.
https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/11705/110541-rural-crime-report-a4-eng-proofv4.pdf

Ar y trydydd tro hwn, estynnwyd yr ymgynghoriad i heddluoedd eraill Cymru. Gofynnodd y comisiynydd am sicrwydd gan arweinydd yr heddlu ar gyfer troseddau cefn gwlad, a chafodd wybod am y camau sydd eisoes ar waith i wella plismona ym maes troseddau gwledig.




Ym mis Chwefror 2023, cyfarfu'r comisiynydd â'r rhingyll heddlu a oedd newydd ei neilltuo o Dîm Troseddau Cefn Gwlad Heddlu Dyfed-Powys, a'r arolygydd a benodwyd i oruchwylio'r agenda gwledig ar gyfer yr heddlu. Cafodd y comisiynydd yr wybodaeth ddiweddaraf am ragweithgarwch cynyddol y tîm ar draws ardal yr heddlu a chyda heddluoedd cyfagos, yn ogystal â'u cynlluniau i gynyddu gwaith partneriaeth er mwyn brwydro yn erbyn troseddau cefn gwlad.

Ar lefel genedlaethol, parhaodd y comisiynydd â'i gysylltiad â'r Rhwydwaith Troseddau Cefn Gwlad Cenedlaethol yn ystod 2022-23. Parhaodd y comisiynydd hefyd i gadw mewn cysylltiad agos â Chydlynydd Troseddau Gwledig a Bywyd Gwyllt Cymru sy'n dod ag arferion gorau neu bryderon i sylw'r comisiynydd.

Mae'r Strategaeth Bywyd Gwyllt gyntaf erioed sy'n benodol i Gymru i'w lansio ar ddiwedd mis Ebrill 2023, pan fydd tîm Troseddau Cefn Gwlad Heddlu Dyfed-Powys yn gweithio ar y strategaeth troseddau cefn gwlad lleol ynghyd â chynllun cyflenwi a fframwaith perfformiad. Bydd y comisiynydd yn parhau i oruchwylio materion troseddau cefn gwlad lleol a chenedlaethol yn 2023-24.

## Teledu cylch cyfyng

Roedd ail-fuddsoddi a gwella darpariaeth teledu cylch cyfyng ar draws ardal yr heddlu yn un o flaenoriaethau allweddol y comisiynydd pan gafodd ei ethol yn 2016. Mae cynnydd wedi parhau yn ystod 2022/23 tuag at gyflawni'r addewid hwn ar gyfer cymunedau lleol.

Mae cyfanswm o 156 camera bellach, gyda systemau teledu cylch cyfyng ychwanegol wedi'u gosod yn Arberth, Rhydaman a Llanfair-ym-Muallt. Yn ogystal â hyn, yn dilyn cais llwyddiannus i raglen ariannu Strydoedd Mwy Diogel 4, darparwyd cyllid i brynu offer teledu cylch cyfyng y gellir ei roi ar waith yn gyflym a fydd yn gwella'r gwasanaeth ymhellach.

Mae'r tîm Teledu Cylch Cyfyng ymroddedig sy'n gweithio oPencadlys y Llu wedi bod yn wyliadwrus wrth helpu i ddiogelu ein cymunedau, ac mae'r canlynol ymhlith y canlyniadau nodedig:

- Bu'r gweithredwyr teledu cylch cyfyng yn ymwneud â chyfanswm o 5,436 o ddigwyddiadau yn 2022-23;
- Drwy waith monitro rhagweithiol, nododd y gweithredwyr 195 o ddigwyddiadau na fyddent wedi cael eu nodi yn ôl pob tebyg oni bai bod y systemau teledu cylch cyfyng wedi cael eu defnyddio;
- Daethpwyd o hyd i gyfanswm o 72 o bobl ar goll / agored i niwed o ganlyniad uniongyrchol i gymorth systemau teledu cylch cyfyng;
- Darparodd y gweithredwyr teledu cylch cyfyng dystiolaeth a chudd-wybodaeth allweddol mewn perthynas â chwe digwyddiad yn ymwneud ag arfau a allai fod yn angheuol; a
- Gwnaethant ddod o hyd yn gyflym i bobl a oedd o dan amheuaeth mewn pedwar digwyddiad ar wahân o droseddu rhywiol, gan hwyluso'r broses o arestio'r unigolion.

## Y Ddyletswydd Trais Difrifol

Dechreuodd y ddyletswydd trais difrifol ar 31 Ionawr 2023 ac mae'n gosod dyletswydd ar awdurdodau penodedig i gydweithio i atal a lleihau trais difrifol. Mae'r Swyddfa Gartref wedi dyrannu cyllid grant i bartneriaid ym mhob ardal heddlu i gyflawni'r ddyletswydd, cefnogi'r gwaith o gyflawni strategaethau lleihau trais difrifol ac atal niwed.

### Rolau a chyfrifoldebau o dan y ddyletswydd trais difrifol

**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu** – nid yw'r comisiynydd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd, ond mae ganddo swyddogaethau penodol a roddwyd gan ddeddfwriaeth sy'n caniatáu iddo gynorthwyo'r awdurdodau penodedig a pherthnasol drwy ddyroddi cyllid, cefnogi a monitro'u gweithgareddau a chyflwyno adroddiad ar eu canfyddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**Awdurdodau penodedig** – Awdurdodau penodedig yw'r sefydliadau sy'n gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd. Maent yn cynnwys byrddau iechyd lleol, awdurdodau tân ac achub, plismona, y Gwasanaeth Prawf a thimau troseddwyr ifanc

**Awdurdodau perthnasol** – mae'r rhain yn cynnwys awdurdodau addysg, carchardai neu ddalfeydd ieuenctid. Rhaid i awdurdodau penodedig ymgynghori â hwy wrth lunio strategaeth trais difrifol ac efallai y bydd yn ofynnol iddynt gymryd camau gweithredu, megis gweithgareddau ymyrryd, o dan strategaeth o'r fath.

Mae trefniadau llywodraethu yn eu lle a byddant yn parhau i gael eu monitro o ran eu heffeithiolrwydd, a bydd yr holl bartneriaid penodedig a pherthnasol yn cymryd rhan er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cyfrifoldebau statudol. Bydd gwaith yn parhau yn 2023-24 i ddatblygu proffil strategol o drais difrifol a fydd yn arwain at gynllun cyflenwi ar y cyd.

# Blaenoriaeth 3: Mae ein system gyfiawnder yn fwy effeithiol


## Y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol

Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Dyfed-Powys yn dod ag uwch gynrychiolwyr o asiantaethau cyfiawnder troseddol sy'n gweithredu yn ardal Dyfed-Powys at ei gilydd. Diben y bwrdd yw gwella'r modd y darperir cyfiawnder a'r gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr a thystion. Mae'n cyfarfod bob chwarter ac yn cael ei gadeirio gan y comisiynydd.

Gweledigaeth Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed-Powys yw gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y system cyfiawnder troseddol yn ardal Dyfed-Powys, gan gynnwys gwella profiad dioddefwyr a thystion a meithrin hyder yn y system yn ei chyfanrwydd.

Yn ystod 2022-23, roedd gan y bwrdd bedair blaenoriaeth allweddol:

- Canolbwyntio ar ddioddefwyr a thystion, yn enwedig dioddefwyr sy'n dioddef o droseddau rhyw difrifol;
- Pobl sy'n troseddu;
- Ymyrraeth gynnar ac atal; a
- Cydraddoldeb hiliol.



Roedd y gwaith a wnaed i gyflawni'r amcanion hyn yn cynnwys:

- **Safleoedd Tystiolaeth o bell** – Mae'r safleoedd hyn yn parhau i gael eu hyrwyddo, ac agorwyd safle yn Noc Penfro ar 3 Hydref 2022. Mae eiriolwyr arbennig bellach ar waith ym mhob uned gofal tystion i sicrhau bod pob tyst sy'n agored i niwed sy'n mynd i'r llys i roi tystiolaeth yn ymwybodol o'u hawliau a nodir yng Nghod y Dioddefwyr i wneud cais am fesurau arbennig os ydynt yn dymuno. [Y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau yng Nghymru a Lloegr a deunyddiau gwybodaeth gyhoeddus ategol– GOV.UK (www.gov.uk)]

- **Y cod ymarfer dioddefwyr –** Dechreuodd gwaith ym mis Tachwedd i asesu a oedd hawliau dioddefwyr fel y nodir yn y cod yn cael eu bodloni. Mae hwn yn ddarn allweddol o waith a fydd yn parhau drwy gydol 2023-24 i alluogi'r bwrdd i ddeall a nodi lle mae angen gwneud mwy o waith.

- **Fforwm Ymgysylltu Dioddefwyr** – Cefnogodd y fforwm y bwrdd drwy ganolbwyntio ar sut roedd y defnydd o'r Gymraeg wedi effeithio'n gadarnhaol ar eu profiad o'r system gyfiawnder.

- **Y dirwedd droseddol** – Un o'r blaenoriaethau allweddol lleol oedd mapio angen troseddogenig ar draws yr holl garfanau troseddu. Bydd yr ymarfer mapio hwn yn galluogi'r bwrdd i herio a yw'r strwythurau a'r gwasanaethau cymorth sydd ar waith ar hyn o bryd yn diwallu anghenion troseddwyr. Bydd wedyn yn cyfrannu at ddeall a oes bwlch y gellir mynd i'r afael ag ef drwy gomisiynu gwasanaethau ychwanegol.

- **Cynllun peilot llety –** Ariannodd y comisiynydd gynllun peilot llety ar gyfer prosiect rheoli troseddwyr integredig yng Ngheredigion gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol amlwg ac sydd bellach bron yn niwtral o ran cost. Bwriedir i'r model hwn gael ei gyflwyno i ardal ehangach Dyfed-Powys.

- **Atal ieuenctid** – Cwblhaodd Prifysgol Aberystwyth adolygiad o fuddsoddiad y comisiynydd mewn gwasanaethau atal ieuenctid i ddangos y gwerth ychwanegol.

- **Dangosfyrddau –** Mae sawl dangosfwrdd wedi'u creu ar lefel Cymru gyfan i sicrhau tryloywder a dealltwriaeth o'r materion er mwyn ymateb iddynt yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys trais rhywiol oedolion a phlant, pob trosedd, cyfraddau cam-drin domestig a hil. Mae datblygu, gweithredu a defnyddio'r dangosfyrddau hyn yn flaenoriaeth i Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Dyfed-Powys yn 2023-24 er mwyn cefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau.

- **Y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol** – Cafodd y cynllun Cymru gyfan ei lansio a'i gyhoeddi ym mis Medi 2022. Cynrychiolir holl aelodau'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn y tasglu cydraddoldeb hil a'r gweithgorau sy'n arwain ar gyflawni hyn. Mae cynllun cyflawni ar gyfer 2023-25 wedi'i ddatblygu er mwyn cyflawni yn erbyn yr ymrwymiadau a wnaed.

Mae cylch gorchwyl y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn ogystal â siart strwythur ar gael ar wefan y comisiynydd: https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd-a-thryloywder/bwrdd-cyfiawnder-drosedd/



## Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru

Mae'r comisiynydd, fel Cadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, yn aelod gweithgar o Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru. Yma mae'n gweithio gydag uwch gynrychiolwyr asiantaethau cyfiawnder troseddol ledled Cymru i sicrhau dull cydgysylltiedig o fynd i'r afael â'r meysydd blaenoriaeth allweddol o gefnogi dioddefwyr, pobl sy'n troseddu, ymyrraeth gynnar ac atal a chydraddoldeb hil.

Mae adroddiad blynyddol Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru yn manylu ar y gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghymru i ysgogi system cyfiawnder troseddol effeithlon, effeithiol a theg. https://www.gov.uk/government/publications/criminal-justice-board-for-wales-annual-report-2022-23

## Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

Mae'r prosiect Adolygiad Diogelu Unedig Sengl wedi parhau drwy'r flwyddyn ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, Prifysgol Caerdydd, y Swyddfa Gartref a rhanddeiliaid allweddol eraill ledled Cymru. Nod cyffredinol y prosiect yw sefydlu dull Cymru gyfan ar gyfer comisiynu, gweithredu a dysgu o adolygiadau.

Ar hyn o bryd, mae canllawiau statudol yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn destun proses ymgynghori ffurfiol gan Lywodraeth Cymru, ac fe ddechreuodd ar 6 Mawrth 2023. Unwaith y bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u derbyn, eu dadansoddi a newidiadau wedi'u gwneud i'r canllawiau statudol, bydd y broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn disodli'r Adolygiad Ymarfer Plant presennol, yr Adolygiad Ymarfer Oedolion, yr Adolygiad o Laddiadau Iechyd Meddwl, yr adolygiad o Laddiadau Domestig a'r Adolygiad o Laddiadau Arfau Ymosodol yng Nghymru.

Mae'r comisiynydd wedi bod yn ymwneud â datblygu'r broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl drwy ei rôl fel yr Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cadwrfa Ddiogelu Cymru (WSR). Mae ymarferwyr wedi profi adwrfa Ddiogelu Cymru  i sicrhau ei bod yn addas i'r diben  ar gyfer y rhai a fydd yn ei defnyddio. Mae angen gwneud

rhagor o waith a bydd y comisiynydd yn cyfrannu at gyfarfodydd y Bwrdd Gweinidogol lle bydd materion capasiti ar gyfer adolygwyr sy'n cynnal yr Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl yn cael eu trafod yn ystod y flwyddyn i ddod.

## Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

O dan dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, rhaid i'r comisiynydd gefnogi ymdrechion ar y cyd i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth; hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl.

## Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth newydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru

Ddydd Iau, 8 Medi 2022, lansiodd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ei Gynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth newydd, gan amlinellu bod partneriaid, gan gynnwys y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru, yn benderfynol o wneud popeth o fewn eu gallu, yn unigol ac ar y cyd, i gael gwared ar unrhyw fath o hiliaeth ar draws y system cyfiawnder troseddol.

Mae'r Cynllun wedi'i ddatblygu i gyd-fynd â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, a gafodd ei lansio ym mis Mehefin 2022. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys adran Trosedd a Chyfiawnder i gefnogi ymateb system gyfan, un gwasanaeth cyhoeddus i gydraddoldeb hiliol. Cynigiodd y dull hwn y cyfle i amlinellu sut y bydd partneriaid yn mynd i'r afael â throseddau casineb a chydlyniant cymunedol, ac i esbonio, ar yr un pryd, sut y bydd y cynllun yn gweithio'n ddi-dor gyda Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru.

O'r cychwyn cyntaf, ymrwymodd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru i wrando ar brofiadau a lleisiau pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol, eu clywed a'u hymgorffori er mwyn arwain datblygiad y Cynllun Gweithredu.

O ganlyniad, mae'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth wedi esblygu dros gyfnod o 18 mis, gan nodi a sefydlu pob cam sydd ei angen i gyflawni newid gwirioneddol ar draws y system cyfiawnder troseddol. Mae hyn wedi golygu gweithio gyda mwy na 600 o bobl o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol, gan helpu i gyd-gynhyrchu cynllun sy'n cydnabod y dirwedd unigryw yng Nghymru ac sydd wir yn diwallu anghenion ein cymunedau.

Gyda chefnogaeth gan Dîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig a Ieuenctid Cymru, mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru hefyd wedi cyflwyno Panel Goruchwylio a Chynghori Annibynnol newydd i oruchwylio cynnydd y cynllun. Mae'r panel yn cynnwys 12 aelod, sy'n dod o bob rhan o Gymru, o gefndiroedd proffesiynol ac â phrofiadau bywyd amrywiol, i ddarparu craffu, a byddant, yn hollbwysig, yn dwyn y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol i gyfrif am gyflawni'r cynllun. Bydd y panel yn chwarae rhan hanfodol mewn sicrhau bod uchelgeisiau'r cynllun yn cael eu gwireddu, gan gyflwyno'r newid angenrheidiol i bob lefel o'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru.

**PCC Dafydd Llywelyn said,**

> *" Dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn, "Roeddwn yn falch o fod yng Nghaerdydd ar gyfer lansio Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Drwy weithio'n agos gyda'n partneriaid cyfiawnder troseddol dros y blynyddoedd diwethaf yn ystod camau datblygu'r cynllun gweithredu, ein nod yw gwneud y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru yn decach, yn fwy effeithlon ac yn fwy effeithiol gan sicrhau bod gwrthwynebu hiliaeth yn werth ac yn ddull gweithredu sy'n greiddiol iddi.*
>
> *I gefnogi'r gwaith o gyflawni cynllun gweithredu Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru cefais fy mhenodi'n gyd-gadeirydd Grŵp Gorchwyl Data a Pherfformiad Cydraddoldeb Hiliol Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru. Y dasg yw creu fframwaith perfformiad a dangosfwrdd i fonitro anghyfiawnder hiliol a chynrychiolaeth y gweithlu o fewn partneriaid cyfiawnder troseddol yng*

*Nghymru. Penodais staff i'm swyddfa i gefnogi'r datblygiad hwn.*

*Rwy'n edrych ymlaen yn awr at weithio'n agos gyda phartneriaid i sicrhau bod yr holl asiantaethau ym maes cyfiawnder troseddol yng Nghymru yn ymuno'n frwd â'r gwaith o roi ein gweledigaeth ar waith."*


Gellir gweld y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth yma: https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/11398/criminal-justice-anti-racism-action-plan-for-wales-september-2022.pdf

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24

Mae'r Adroddiad Cynnydd blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn amlygu'r cynnydd y mae'r heddlu a swyddfa'r comisiynydd wedi'i wneud yn 2020-24 yn erbyn y pedwar amcan;

1. Cynyddu amrywiaeth ein gweithluoedd fel ein bod yn wirioneddol gynrychioliadol o'n cymunedau.
2. Sicrhau, pan fônt mewn cyflogaeth, bod ein gweithlu amrywiol yn cael ei drin yn deg ac yn gyfartal.
3. Gwella ein dealltwriaeth o'n cymunedau amrywiol er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau'n addas i'r diben, a bod gan bob un o'n cymunedau lais mewn plismona.
4. Sicrhau ein bod yn nodi'n effeithiol faterion sy'n ymwneud â chydlyniant cymunedol, ac yn ymateb yn effeithiol iddynt, gyda'r bwriad o leihau nifer y troseddau a digwyddiadau sy'n ymwneud â chasineb sy'n cael eu cyflawni yn ardal ein heddlu.

Gellir cyrchu'r adroddiad drwy'r ddolen ganlynol: https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/11645/sep-progress-report-2023-opcc-s.pdf






## Y Fforwm Ieuenctid

Mae Fforwm Ieuenctid y Comisiynydd yn rhoi llwyfan i bobl ifanc ddylanwadu ar ddyfodol plismona ac atal troseddu yn eu hardaloedd lleol. Mae'r llysgenhadon ieuenctid sy'n aelodau o'r Fforwm Ieuenctid yn chwarae rhan allweddol yn ei lwyddiant: maent yn herio, yn cwestiynu, yn cefnogi ac yn gwneud yn siŵr bod yr heddlu a swyddfa'r comisiynydd yn cadw eu haddewidion i blant a phobl ifanc ardal Dyfed-Powys.

Yn dilyn ymgyrch recriwtio yn ystod haf 2022, croesawodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu pobl ifanc o bob rhan o ardal yr heddlu i bencadlys yr heddlu yng Nghaerfyrddin. Penodwyd cyfanswm o 15 o bobl ifanc yn aelodau newydd i'r fforwm, yn amrywio mewn oedran rhwng 15 a 19 oed. Ym mis Hydref 2022, cawsant sesiwn sefydlu a hyfforddiant i'w cefnogi a'u paratoi ar gyfer cynrychioli pobl ifanc o Bowys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

Sefydlodd Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn, y Fforwm Ieuenctid am y tro cyntaf yn 2018 fel bod gan ardal Dyfed-Powys fforwm o lysgenhadon ieuenctid sy'n barod i 'ddylanwadu' a 'herio penderfyniadau', er mwyn sicrhau bod gan gymunedau Dyfed-Powys heddlu sy'n diogelu plant a phobl ifanc yn llwyddiannus ac yn hyrwyddo'u llesiant.

Y llynedd, fel rhan o'r ymgyrch recriwtio ar gyfer y Fforwm Ieuenctid, lansiodd swyddfa'r comisiynydd arolwg ieuenctid yn gofyn i bobl ifanc am eu barn a'u canfyddiad o blismona yn eu hardal. Nododd canfyddiadau'r arolwg dri maes blaenoriaeth i'r Fforwm Ieuenctid ganolbwyntio arnynt ar gyfer 2022/23:

- Cymorth iechyd meddwl i ddioddefwyr ifanc;
- Gweithgareddau atal camddefnyddio sylweddau ar gyfer pobl ifanc;
- Cefnogaeth i oedolion ifanc sy'n cyflawni troseddau lefel isel, er mwyn meithrin eu hyder a chael mynediad at hyfforddiant a chyflogaeth.

Mewn ymateb i ganfyddiadau'r arolwg, lansiodd y Fforwm Ieuenctid ymgynghoriad 'Y Sgwrs' ar gyfer pobl ifanc. Gwahoddwyd pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc i gymryd rhan, i rannu eu profiadau o faterion mewn perthynas â'r blaenoriaethau – iechyd meddwl, bod yn ddioddefwr neu'n dyst i drosedd, troseddau ieuenctid a chamddefnyddio sylweddau.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys arolwg ar-lein a ofynnodd i bobl ifanc yn eu harddegau ac i oedolion ifanc esbonio beth sy'n gweithio, beth nad yw'n gweithio a sut y gellid gwella pethau. Cynhaliodd y Fforwm Ieuenctid grwpiau ffocws hefyd er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cyrraedd cynulleidfa eang ac i gael barn plant a phobl ifanc yn eu hardal. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Ebrill, gan arwain at lunio adroddiad i'w rannu, yn ystod Cynhadledd Ieuenctid ym mis Gorffennaf 2023, â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau o gynghorau lleol a sefydliadau ieuenctid.

## Cynnydd yn natblygiad canolfan blismona a dalfa i Sir Gaerfyrddin

Ym mis Ebrill 2021, rhoddodd Cyngor Sir Caerfyrddin ganiatâd cynllunio i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer datblygiad arfaethedig canolfan blismona a dalfa newydd yn Sir Gaerfyrddin, a fydd yn adeiladwaith cynaliadwy uchelgeisiol, gyda sgôr rhagoriaeth gan Ddull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud mewn perthynas â datblygu'r ddalfa yn Nafen, Llanelli. Ymwelodd y Comisiynydd â'r safle ym mis Mawrth 2023 fel rhan o ymgyrch 'Drysau Agored Genedlaethol i Safleoedd Adeiladu', ac aeth grŵp o fyfyrwyr adeiladu o Goleg Sir Gâr gerllaw gydag ef.

Yn ystod y digwyddiad cawsant eu tywys o amgylch y safle adeiladu, sy'n ymestyn dros tua 4,000m² dros ddau lawr. Mae'r adeilad yn cynnwys dalfa â 18 cell, ystafelloedd cyfweld, desg cyhuddiadau, ardal swyddfa â chynllun agored ac ystafelloedd cyfarfod cysylltiedig. Mae gwaith yn parhau ar y safle, a bwriedir ei agor yn swyddogol yn ystod gwanwyn 2023.



# Gwerthoedd

Er mwyn gwireddu gweledigaeth y comisiynydd, sef **'Cadw Cymunedau Dyfed-Powys yn ddiogel',** mae'r comisiynydd yn annog yr heddlu a holl sefydliadau eraill y system cyfiawnder troseddol i weithio'n effeithlon ac yn effeithiol drwy:

| Cydweithio | Bod yn atebol | Bod yn gynaliadwy | Ymgysylltu'n eang |
|---|---|---|---|

# Cydweithio

## Llywodraeth Cymru

Drwy gydol 2022-23, parhaodd y comisiynydd a'i dîm i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â chymheiriaid y comisiynydd a phrif gwnstabliaid ledled Cymru.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r **Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru**, sy'n cael ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Weinidog, yn trafod ac yn cynghori ar faterion plismona. Mae holl Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid Cymru, ochr yn ochr ag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru, yn ystyried materion sy'n benodol i blismona.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r bwrdd wedi ystyried y canlynol, ymhlith pynciau eraill: digartrefedd a chamddefnyddio sylweddau cysylltiedig, cyfamod gwasanaethau brys, camddefnyddio sylweddau, Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth Cymru, argyfwng costau byw / pwysau'r gaeaf, pwysau cyllid yr heddlu a goblygiadau i'r praesept, ac ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn plismona.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cofnodion y cyfarfodydd hyn ar ei gwefan: https://llyw.cymru/bwrdd-partneriaeth-plismona-cymru

Mae'r **Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona** yn rhoi cyfle i aelodau o Senedd Cymru ymgysylltu ag uwch arweinwyr yr heddlu a chlywed ganddynt am blismona ledled Cymru, gan gynnwys y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Yn ystod 2022-23 cyfarfu'r grŵp i gael mewnbwn gan Brif Gwnstabl Heddlu De Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ar y testun 'Diwrnod ym Mywyd Swyddog Heddlu'. Amlygodd y digwyddiad y

galwadau sydd yn wynebu heddluoedd Cymru. Er enghraifft, hysbyswyd Aelodau'r Senedd bod Heddlu Dyfed-Powys, ar y pryd, yn cofnodi deuddeg trosedd y dydd mewn sir y mae'n gallu cymryd pedair awr i deithio mewn cerbyd o un gornel ohoni i'r llall.

Yn ystod y cyfarfod bu'r grŵp hefyd yn trafod cyllido heddluoedd a'r adolygiad parhaus. Roedd lobïo fel rhan o'r adolygiad yn cynnwys cynrychiolaeth gan Heddlu Dyfed-Powys bod angen cyllid ychwanegol arno oherwydd diffyg buddsoddiad cyfalaf a'r heriau daearyddol y mae heddluoedd gwledig yn eu hwynebu. Yn benodol, nodwyd bod angen i ardal Dyfed-Powys gael saith cyfleuster dalfa.

Mae Senedd Cymru yn cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd y grŵp ar ei gwefan: https://busnes.senedd.cymru/mgOutsideBodyDetails.aspx?ID=780

Mae'r grŵp strategol Plismona yng Nghymru wedi cwrdd pedair gwaith yn ystod 2022-23. Mae'n cynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid y pedwar heddlu yng Nghymru, yn ogystal ag aelodau allweddol o'u timau. Nod y grŵp yw nodi a manteisio ar gyfleoedd i gydweithio, ac mae'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gymunedau ledled Cymru ac yn darparu llwyfan ar gyfer cynrychioli plismona Cymru ar y cyd wrth ymgysylltu â phartneriaid fel Llywodraeth Cymru. Cyflawnodd y grŵp rai llwyddiannau sylweddol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- Sicrhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ariannu 100 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru erbyn diwedd tymor presennol y Senedd, gan olygu bod cyfanswm o 600 o swyddogion yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru;
- Yn dilyn gwaith partneriaeth agos, cyflwyno'n llwyddiannus y broses o ddileu deddfwriaeth amddiffyn cosb resymol;
- Cynnydd sylweddol yn y gwaith o weithredu'r Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol;



- Arwain Cynllun Gwrth-hiliaeth Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, a gynhyrchwyd ar y cyd, a nodi ymrwymiadau allweddol i gyflawni ei saith amcan;
- Cyflawni targedau ar gyfer recriwtio swyddogion heddlu mewn perthynas â Rhaglen Uplift yr Heddlu.


Mae nifer o lwyddiannau wedi deillio o'r cysylltiadau agos rhwng Uned Gyswllt yr Heddlu Llywodraeth Cymru, y comisiynwyr a'r prif gwnstabliaid, gan gynnwys:

- Cwblhau adolygiad o blismona yng Nghymru, a gynhaliwyd ar y cyd gan Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu. Darparodd yr adolygiad gyfeiriad pellach ar rôl Uned Gyswllt yr Heddlu ac argymhellion ar gyfer gwelliant pellach, yr ydym yn mynd ati i weithredu arnynt;
- Cyllid ar y cyd wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rôl ar secondiad i weithio gyda phartneriaid golau glas i fynd i'r afael â'r argymhellion o ymchwiliad Arena Manceinion;
- Cynnydd sylweddol o ran amlygu safbwynt yr heddlu mewn perthynas â materion gorfodi ynghylch y cynllun 20mya newydd, yn dilyn cynlluniau peilot ar wyth safle ledled Cymru;
- Cynhaliwyd y gynhadledd Cymru Gyfan gyntaf ar Fywyd Gwyllt a Throseddau Cefn Gwlad, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru;
- Sefydlwyd rhwydwaith swyddogion polisi ar draws pedair swyddfa'r comisiynwyr, wedi'i gydlynu gan ddadansoddwr / swyddog polisi Uned Gyswllt yr Heddlu.

## Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Fel person gwahoddedig statudol i bob un o'r pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws ardal Dyfed-Powys, mae'r comisiynydd yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau canlyniadau cadarnhaol, cynaliadwy i gymunedau.

Yn ystod 2022-23, mae'r comisiynydd wedi hyrwyddo'r agenda Cyflog Byw Gwirioneddol ac wedi cyflwyno i bob un o'r pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys gan annog partneriaid a gwasanaethau cyhoeddus i ymrwymo i fod yn gyflogwr cyflog byw go iawn. Mae tîm y comisiynydd wedi gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod blaenoriaethau trosedd ac anhrefn y Cynllun Heddlu a Throseddu a blaenoriaethau'r cynlluniau Llesiant newydd yn gyson ac yn ategu ei gilydd.



## Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

Parhaodd y gwaith partneriaeth agos ar draws y pedair Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (CSPs) drwy gydol 2022-23. Mae'r comisiynydd wedi cefnogi'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol fel mater o drefn i ddatblygu prosiectau a oedd yn bodloni eu hamcanion diogelwch cymunedol lleol eu hunain yn ogystal â blaenoriaethau'r comisiynydd.

Mae meysydd trafod allweddol ar gyfer y comisiynydd a'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn ystod 2022-23 wedi cynnwys yr adolygiad cenedlaethol o ddiogelwch cymunedol a'r goblygiadau'n lleol, strwythurau Adolygu Lladdiadau Trais Domestig a'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Mae'r comisiynydd a'i dîm hefyd wedi gweithio'n agos iawn gyda rheolwyr y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i ddatblygu'r ymateb lleol i'r ddyletswydd trais difrifol sydd newydd ei chyflwyno. Bydd hyn yn flaenoriaeth sylweddol ar draws y partneriaethau yn ystod 2023-24 a bydd y comisiynydd yn gweithio ochr yn ochr â'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a phartneriaid eraill i ddarparu ymyriadau y bwriedir iddynt leihau risg ac effaith trais difrifol yn ein cymunedau.

## Rhwydwaith Gwella Data a Dadansoddi Arloesol Cymru

Mae Rhwydwaith Gwella Data a Dadansoddi Arloesol Cymru, sy'n rhwydwaith partner i'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel, yn darparu arweinyddiaeth, goruchwyliaeth a chyfeiriad rhwng yr holl bartneriaid o ran dadansoddi data. Ei nod yw cefnogi gwaith partneriaeth aml-asiantaeth, seiliedig ar dystiolaeth, a arweinir gan wybodaeth i gefnogi cymunedau diogel, cryf a mwy hyderus. Fel cadeirydd y rhwydwaith, cyd-noddodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Llywodraeth Cymru gynhadledd genedlaethol ym mis Mawrth 2023 a ddaeth ag ymarferwyr ledled Cymru at ei gilydd i fyfyrio ar ddulliau diogelwch cymunedol a ysgogir gan ddata.

**Dywedodd Dafydd Llywelyn**

> *"Rwy'n falch o fod wedi noddi Cynhadledd Rhwydwaith Gwella Data a Dadansoddi Arloesol Cymru yng Nghaerdydd. Rwyf wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid a chymunedau i wella hyder mewn gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru. Un ffordd o sicrhau hyn yw drwy wella ein prosesau casglu data fel partneriaid, ar y cyd, nid yn unig er mwyn deall a mynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau, ond hefyd er mwyn nodi dulliau arloesol o sicrhau diogelwch cymunedol."*

Yn dilyn adborth o'r digwyddiad, bydd y comisiynydd yn gweithio gydag aelodau Rhwydwaith Gwella Data a Dadansoddi Arloesol Cymru drwy gydol 2023-24, i sicrhau bod y rhwydwaith yn parhau i ddarparu'r cymorth a'r cyfeiriad a geisir gan ei aelodau.




## Y Cyflog Byw Gwirioneddol

Yn 2021 bu'r comisiynydd yn gweithio gyda Heddlu Dyfed-Powys i ddod yn gyflogwr achrededig Cyflog Byw Gwirioneddol. Wedi'i sefydlu ym mis Ionawr 2022, mae'r Grŵp Llywio Cyflog Byw ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cael ei gadeirio gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae'r grŵp yn gweithio i gynyddu nifer y gweithwyr sy'n cael y cyflog byw gwirioneddol ar draws Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Powys, Abertawe, a Chastell-nedd Port Talbot. Mae'r grŵp llywio wedi cyflwyno cynllun gweithredu i'r Living Wage Foundation i gael ei gydnabod yn swyddogol fel y Rhanbarth Cyflog Byw cyntaf yng Nghymru. Mae'r gweithgaredd yn cefnogi Cynllun Heddlu a Throseddu y comisiynydd drwy gydweithio i feithrin gwytnwch a mynd i'r afael ag un o achosion sylfaenol trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Fel rhan o Wythnos Cyflog Byw 2022, trefnodd y grŵp llywio digwyddiad yng Nghanolfan John Burns, Cydweli, i ddathlu cyflogwyr ymroddedig yn y rhanbarth ac i ddeall mwy am y camau nesaf ar gyfer gwneud Canolbarth a Gorllewin Cymru yn Rhanbarth Cyflog Byw. Agorodd y comisiynydd y digwyddiad, a oedd yn hyrwyddo'r cynnydd a wnaed fel rhanbarth, a chafwyd areithiau gan gyflogwyr a gweithwyr am y gwahaniaeth y mae'r cyflog byw gwirioneddol yn ei wneud iddynt.

# Bod yn atebol

Mae trefniadau llywodraethu ar waith i sicrhau atebolrwydd priodol ar bob lefel. Mae'r trefniadau hyn yn annog prosesau gwell o wneud penderfyniadau a defnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Yn ystod 2022-23, parhaodd y comisiynydd i gyflawni ei rôl graffu drwy gynnal cyfarfodydd y Bwrdd Plismona a'r Bwrdd Atebolrwydd Plismona.

## Y Bwrdd Plismona

Fforwm pythefnosol yw'r Bwrdd Plismona lle mae'r comisiynydd yn sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol am gyflenwi gwasanaethau plismona ar draws ardal Dyfed-Powys.

O fis Ebrill 2022 ymlaen mabwysiadodd y Bwrdd Plismona dull newydd, lle roedd cyfarfod cyntaf y mis yn canolbwyntio ar berfformiad yr heddlu a'r cyfarfod bythefnos yn ddiweddarach yn canolbwyntio ar un o flaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throsedd. Mae'r dull newydd wedi'i groesawu gan yr heddlu ac mae wedi cynyddu lefel y sicrwydd oherwydd bod y gwaith craffu ar feysydd penodol wedi'i dargedu. Mae hyn wedi bod yn hanfodol yn ystod y flwyddyn wrth i'r heddlu gynnal adolygiad fewnol sylweddol ohono'i hun gyda'r bwriad o nodi arbedion effeithlonrwydd ac arbedion ariannol.

### Rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023, roedd ffocws y Bwrdd Plismona yn cynnwys:

- Perfformiad a galwadau'r haf
- Perfformiad yr heddlu
- Stopio a chwilio
- Safonau ymchwiliadau
- Y Prosiect Dechrau i'r Diwedd / Model Gweithredu'r Heddlu
- Y rhaglen perfformiad a chyfalaf a buddsoddiadau.
- Cynllun Gwrth-Hiliaeth Heddlu Dyfed-Powys

Mae cofnodion y Bwrdd Plismona ar gael i'w lawrlwytho ar wefan y comisiynydd: https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd-a-thryloywder/bwrdd-heddlu/

## Y Bwrdd Atebolrwydd Plismona

Mae'r Bwrdd Atebolrwydd Plismona yn gyfarfod cyhoeddus a gynhelir yn chwarterol. Ym mis Hydref 2022 dychwelodd cyfarfodydd i fod yn rhai 'wyneb yn wyneb' yn dilyn pandemig COVID-19, gyda'r cyntaf yn cael ei gynnal ym Mhrifysgol Aberystwyth. Fe'i cynhaliwyd ers hynny mewn ardaloedd eraill o ardal Dyfed-Powys, gyda phresenoldeb da gan y cyhoedd. Y prif ffocws yw perfformiad yr heddlu yn erbyn blaenoriaethau Cynllun Heddlu a Throseddu y comisiynydd. Mae hefyd yn rhoi'r cyfle i fynychwyr ofyn cwestiynau i'r comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn uniongyrchol. Cyhoeddir manylion pob cyfarfod ar wefan y comisiynydd.



## Y Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu

Mae aelodau'r Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu yn cefnogi'r comisiynydd mewn perthynas â dyfarnu arian grant neu dendro am wasanaethau. Mae ei rôl yn cynnwys sicrhau bod elw ar fuddsoddiad a gwerthuso effaith y gwasanaeth. Mae'r bwrdd yn canolbwyntio ar graffu ar weithgareddau a sicrhau bod darparwyr gwasanaethau yn atebol.

Yn ystod 2022-23, cafodd y bwrdd gyflwyniadau gan sawl darparwr gwasanaeth a gomisiynwyd, ynghyd â derbynwyr cyllid eraill a phartneriaid darparu allweddol ar gyfer gweithgareddau grant y Swyddfa Gartref. Roedd hyn yn cynnwys canolbwyntio ar wasanaeth dioddefwyr a thystion Goleudy, y rhaglenni a ddarparwyd gyda chyllid Cyflawnwyr Cam-drin Domestig, a menter '*Kicks*' Abertawe a ariannwyd gan y comisiynydd.

Mae aelodaeth y bwrdd wedi cael ei hadnewyddu, a nodwyd dirprwyon enwebedig er mwyn sicrhau bod presenoldeb craidd mewn cyfarfodydd. Yn ogystal, yn ystod y flwyddyn i ddod bydd y bwrdd yn cynnal cyfarfod arbennig pwrpasol i gynnig cyfle i ddioddefwyr a defnyddwyr gwasanaethau rannu eu profiadau a rhoi adborth ar y gwasanaethau a dderbyniwyd ganddynt.

## Y Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys

Mae'r Panel Craffu Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys, a gydlynir gan swyddfa'r comisiynydd, yn dod â chynrychiolwyr ynghyd o bob rhan o'r sector cyfiawnder troseddol, gan gynnwys y llysoedd, y Gwasanaeth Prawf, timau troseddau ieuenctid a Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Mae aelodau'r panel yn asesu, yn craffu ac yn rheoli ansawdd y defnydd o ddatrysiadau y tu allan i'r llys (fel rhybuddion, datrysiadau cymunedol a gwarediadau adferol ieuenctid) a gyhoeddir gan Heddlu Dyfed-Powys, yn annibynnol. Maent yn gwneud argymhellion, yn rhoi adborth ar achosion unigol i swyddogion, yn cyfathrebu canfyddiadau, yn hyrwyddo arferion gorau ac yn nodi anghenion datblygu polisi neu anghenion hyfforddiant posibl i'w hystyried gan yr heddlu neu asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig.

O fewn eu gweithgareddau craffu ar-lein yn ystod 2022-23, adolygodd y panel 60 o achosion yn ymwneud â: trais yn erbyn menywod a merched, stelcio ac aflonyddu, troseddau casineb ac arfau tanio, ac achosion meddiant cyffuriau.

Amlygwyd Panel Craffu Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys Dyfed-Powys, fel arfer gorau mewn adroddiad gan Gymdeithas yr Ynadon, 'Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys: Yn addas at y diben neu angen ei ddiwygio?' ym mis Rhagfyr 2022. https://www.magistrates-association.org.uk/Portals/0/221208 Adroddiad - Gwarediadau y tu allan i'r llys.pdf Yn yr adroddiad nodwyd

> *"Nid yw mwyafrif paneli craffu Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys yn cyhoeddi eu canfyddiadau yn gyhoeddus; dim ond naw Llu a adroddodd bod eu paneli yn cyhoeddi cofnodion yn rheolaidd, a dywedodd deg arall eu bod yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y mater hwn. Roedd Dyfed-Powys yn sefyll allan fel yr enghraifft o arfer gorau; mae'n cyhoeddi nid yn unig cofnodion pob panel, ond hefyd grynodeb dienw o'r achos a chanlyniad yr adolygiad."*

Yn dilyn canfyddiadau'r llynedd, nododd y panel fod angen ceisio sicrwydd pellach ynghylch pa un a oedd plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cefnogi'n gyson ar draws ffiniau'r heddluoedd. Ers hynny mae'r comisiynydd wedi bod yn cymeradwyo ac yn cefnogi gwaith Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, sydd wedi llunio canllawiau ymarfer.

Lluniwyd y canllawiau hyn er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion a nodir ym Mhrotocol Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau nifer y plant ac oedolion ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sy'n cael eu troseddoli, gan ddarparu arweiniad gweithredol clir ar gyfer darparwyr preswyl ac asiantaethau o fewn y system cyfiawnder troseddol. Mae'r gwaith yn anelu at leihau faint o droseddoli diangen sy'n digwydd i blant ac oedolion ifanc sydd â phrofiad o ofal, a hynny mewn ffordd foesegol a chymesur. Bydd y gwaith hwn yn cael ei lansio'r flwyddyn nesaf.

I ddarllen holl adroddiadau blaenorol y panel ewch i [https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd-a-thryloywder/craffu/panel-gwarediadau-y-tu-allan-i-r-llys/](https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd-a-thryloywder/craffu/panel-gwarediadau-y-tu-allan-i-r-llys/)

## Cynlluniau Gwirfoddolwyr

Drwy gydol y flwyddyn, parhaodd y comisiynydd a'i dîm i weithio gyda gwirfoddolwyr a phaneli sy'n ei gefnogi i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am ddarparu gwasanaethau heddlu effeithlon, effeithiol a dilys.

Mae'r Comisiynydd yn ddiolchgar i'r rhai sydd wedi parhau i wirfoddoli ar gyfer ei swyddfa fel rhan o'r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a'r Cynllun Lles Anifeiliaid, y Panel Sicrhau Ansawdd, a'r Fforymau Ymgysylltu â Dioddefwyr a Phobl Ifanc.

Mae'r rhain i gyd yn helpu i fonitro a sicrhau proffesiynoldeb o fewn Heddlu Dyfed-Powys.

> *"Mae gwirfoddolwyr ar draws yr holl gynlluniau, paneli a fforymau yn fy swyddfa yn chwarae rhan bwysig o fewn swyddogaeth graffu fy swyddfa, o ran fy helpu i sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn cael ei ddwyn i gyfrif. Rwy'n ddiolchgar i bob un person sy'n gwirfoddoli i'm helpu i gyflawni'r gwaith hanfodol hwn."*
>
> Dafydd Llywelyn

## Y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa

Mae'n ofyniad statudol i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu gael Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol.

Mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn rhoi sicrwydd annibynnol bod pobl sy'n cael eu cadw'n gaeth yn cael eu trin yn briodol ac yn deg gan Heddlu Dyfed-Powys.

### Yn ystod 2022-23 ...

- Bu 26 ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa yn weithredol
- Bu 180 o ymweliadau corfforol â'r dalfeydd
- Bu 434 o garcharorion yn y ddalfa yn ystod galwadau / ymweliadau
- Siaradwyd â 196 o garcharorion
- Arsylwyd ar 86 o garcharorion
- Adolygwyd 174 o gofnodion y dalfeydd

Mae hyn yn welliant ar sefyllfa'r flwyddyn flaenorol. O ganlyniad i'r ymweliadau hyn, gwnaed gwelliannau ar gyfer carcharorion a'r staff fel ei gilydd.

## Diwrnod hyfforddiant

Cynhaliwyd diwrnod hyfforddiant i ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa ym mis Awst 2022 yn y pencadlys lle dangosodd yr hyfforddwr dalfa a oedd yn bresennol y prosesau cofrestru a rhyddhau cyflawn i'r ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa, gan ganolbwyntio ar asesu risg. Cafodd yr ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa wybod hefyd am y Ddeddf Cydraddoldeb ac am urddas carcharorion yn y ddalfa. Mae'r hyfforddiant pwysig hwn wedi galluogi ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa i ddeall prosesau'r ddalfa ymhellach ac wedi'u cynorthwyo i ofyn cwestiynau perthnasol ychwanegol tra'u bod yn cynnal eu hymweliadau.

## Materion ystadau

Fel rhan o'u hymweliadau, mae ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa yn ystyried yr adeiladau a'r cyfleusterau y maent yn ymweld â hwy ac yn amlygu unrhyw bryderon neu broblemau sydd ganddynt. Mae problemau a nodwyd yn ein dalfeydd yn y Drenewydd mewn perthynas â drysau tân a'r system intercom wedi cael eu hamlygu ac yn cael sylw. Mae pryderon yn ymwneud â lefelau staffio hefyd wedi'u codi gyda'r Prif Gwnstabl drwy'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac yn cael sylw. Gwelliant ychwanegol a ddaeth yn uniongyrchol yn sgil ymweliad gan ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa yw prynu gwefrydd ffôn cyffredinol ar gyfer dalfeydd fel y gellir gwefru ffonau symudol carcharorion i gael rhifau cyswllt teulu.

## Peilot siwt gwrth-niwed

Mae dillad gwrth-rwygo neu siwtiau gwrth-niwed yn ddillad a ddefnyddir mewn llawer o ddalfeydd ledled y DU. Mae'r defnydd y mae'r dillad wedi'i wneud ohono yn golygu na all carcharorion rwygo'r defnydd a gwneud rhwymau.

Codwyd y mater ynghylch dillad gwrth-rwygo yn wreiddiol gan y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn dilyn adolygiad systematig o adroddiadau'r arolygiaeth o ddalfeydd yr heddlu yn genedlaethol. Amlygodd yr adroddiadau nifer o faterion cyson a phryderus – yn arbennig y defnydd o ddillad gwrth-rwygo yn absenoldeb gwybodaeth am risgiau; materion yn ymwneud ag urddas wrth ddefnyddio'r dillad a lefelau cyfiawnhau ac adolygu gwael ar adegau pan ddefnyddiwyd dillad gwrth-rwygo.

Mae swyddfa'r comisiynydd wedi arwain ar gynllun peilot cenedlaethol ar gyfer siwtiau gwrth-niwed mewn partneriaeth â Heddlu Dyfed-Powys a'r Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. Bob mis adolygodd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd gofnodion dalfeydd ar gyfer unigolion o fewn dalfeydd Heddlu Dyfed-Powys y rhoddwyd siwt gwrth-niwed iddynt. Ystyriodd ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa pa un a oedd y siwtiau'n cael eu dyroddi'n briodol ai peidio, pa un a oeddent yn cael eu tynnu i ffwrdd cyn gynted â phosibl a bod rhesymeg ddigonol dros eu defnyddio wedi'i chofnodi yng nghofnodion unigolion y ddalfa.

Cyhoeddodd y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd werthusiad interim o'r cynllun peilot ym mis Rhagfyr 2022, a oedd yn cydnabod gwelliant sylweddol o ran monitro'r defnydd o ddillad gwrth-rwygo yn Heddlu Dyfed-Powys. Cadarnhaodd hefyd fod ansawdd y cofnodi a'r cyfiawnhad dros ddefnyddio'r dillad wedi gwella'n sylweddol, gan arwain at ganlyniadau gwell i garcharorion yn y ddalfa.

**Sherry Ralph, Prif Swyddog Gweithredu o'r Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd**

> *“Rwyf wrth fy modd bod Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi bod yn gweithio gyda'r Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd i sicrhau, pan ddefnyddir y mesur hwn, ei fod yn cael ei wneud mewn ffordd gymesur, gyda chyfiawnhad llawn a dim ond o dan amgylchiadau pan oedd pob opsiwn arall wedi'i ddihysbyddu. Mae cynnal urddas carcharorion yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa yn sbardun allweddol i bawb a fu'n rhan o'r cynllun peilot, ac rwy'n ddiolchgar i Heddlu Dyfed Powys, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, ac wrth gwrs yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd am eu hymgysylltiad cymeradwy a'u gwaith caled cyson.”*

**Bernard Whitney, ymwelydd annibynnol â dalfeydd**

> *“Mae'r sesiynau Adolygu Cofnodion y Ddalfa yn arf pwerus sydd hefyd yn galluogi'r ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa i gael darlun eglur yn ogystal â gwell dealltwriaeth o safbwynt swyddogion, o ystyried eu rôl i ddarparu dyletswydd gofal yn ystod y cyfnod y mae carcharwr yn cael ei gadw'n gaeth.”*

I ddarllen mwy am y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ewch i https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-swyddfa/cynlluniau-gwirfoddoli/ymwelwyr-annibynnol-ar-ddalfa/

## Y Cynllun Lles Anifeiliaid

Mae ymwelwyr lles anifeiliaid y comisiynydd yn gwirio lles cŵn heddlu sy'n ymwneud â gwaith yr heddlu. Maent hefyd yn ystyried y cyflwr y mae'r cŵn yn cael eu cartrefu, eu hyfforddi, eu cludo a'u lleoli ynddo.

Disgwylir i ymwelwyr lles anifeiliaid gwblhau o leiaf un ymweliad â thriniwr cŵn a'u cŵn bob 6 mis.

Yn ystod 2022-23 cynhaliodd y pum ymwelydd lles anifeiliaid gyfanswm o 38 o ymweliadau, y cynhaliwyd saith ohonynt yng nghytiau cŵn newydd Heddlu Dyfed-Powys. Ni chodwyd unrhyw bryderon sylweddol yn ystod yr ymweliadau hyn.

Roedd yn ddrwg gan y comisiynydd a'i dîm glywed am golli un o wirfoddolwyr y comisiynydd a oedd wedi gwasanaethu hiraf ym mis Mawrth. Roedd Ben Davies yn ymwelydd lles anifeiliaid ymroddedig ac mae'r swyddfa'n ddiolchgar iawn am ei gyfraniadau sylweddol ers dros ddeng mlynedd. Mae ein meddyliau gyda'i deulu a'i ffrindiau.

## Y Panel Sicrhau Ansawdd

Mae'r 14 aelod o Banel Sicrhau Ansawdd y comisiynydd yn craffu ar ansawdd cysylltiadau'r heddlu â'r cyhoedd, mewn modd tryloyw ac annibynnol. Mae gweithgareddau craffu'r panel yn cefnogi gwelliannau o fewn yr heddlu. Cyfarfu'r panel bum gwaith yn ystod 2022-23, gan adolygu:

- Stelcio ac aflonyddu ar ddau achlysur – darparodd y panel adborth ar nifer o achosion y gellid bod wedi ymdrin â hwy yn wahanol. Gwnaeth yr hyn a ddysgwyd o hyn gyfrannu at archwiliad dwfn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i reoli'r rhai sydd wedi cyflawni troseddau aflonyddu a stelcio yn gynnar yn 2023-24.
- Defnyddio digwyddiadau yr heddlu – gwnaeth y panel nifer o sylwadau yn ymwneud ag arferion cofnodi. Nododd a dywedodd yr heddlu y byddai'n adolygu ac yn diwygio'r ffurflenni yn unol â'r system Niche newydd ar gyfer rheoli cofnodion a oedd yn cael ei chyflwyno ym mis Mai 2023.
- Galwadau i mewn i Ganolfan Gyfathrebu yr Heddlu – ym mis Ionawr 2023 ystyriodd y panel ddetholiad o recordiadau 999 ar hap. Roedd yr aelodau o'r farn bod galwadau'n cael eu trin yn dda ar y cyfan. Nodwyd na roddwyd y rhif cyfeirnod i'r galwr yn y mwyafrif o alwadau. Derbyniodd yr heddlu y dylid gwneud hyn, a byddai'n ystyried hyn fel rhan o brosesau archwilio dyddiol. Nododd yr aelodau hefyd y byddai'n fuddiol i ap What3Words a llinell fyw Iaith Arwyddion Prydain gael eu hyrwyddo. Cytunodd yr heddlu y byddai'n ailymweld â hyn gyda'i adran Cyfathrebu Corfforaethol.
- Achosion cam-drin domestig lle nad oedd y dioddefwr yn cefnogi neu wedi tynnu cefnogaeth yn ôl am weithredu gan yr heddlu – dangosodd yr aelodau lawer iawn o wybodaeth mewn perthynas â'r maes hwn o ganlyniad i'r ffaith eu bod wedi cynnal adolygiadau yn y blynyddoedd blaenorol. Cafwyd awgrym gan y panel y gallai mwy o gyfathrebu hybu ymwybyddiaeth a chynyddu hyder y cyhoedd mewn adrodd. Cytunodd yr heddlu i ystyried y mater yn fanylach.

I ddarllen mwy am argymhellion a gweithgareddau'r Panel Sicrwydd Ansawdd ar gyfer 2022-23, ewch i wefan y comisiynydd: https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-swyddfa/cynlluniau-gwirfoddoli/panel-sicrhau-ansawdd/

## Panel yr Heddlu a Throseddu

Mae gan Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys gyfrifoldeb statudol am graffu ar waith y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'i gefnogi i gyflawni ei swyddogaethau statudol. Yn ystod 2022-23, parhaodd y panel i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, gan ganolbwyntio'n benodol ar:

- Craffu ar braesept yr heddlu;
- Sut mae'r comisiynydd yn rheoli ystâd yr heddlu yng ngoleuni'r pwysau ariannol ar y gyllideb gyfalaf;
- Craffu ar sut mae'r comisiynydd yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif;
- Craffu ar berfformiad y comisiynydd yn erbyn y Gorchymyn Protocol Plismona.

Yn ogystal â'r blaenoriaethau hyn, bu'r panel yn craffu ar yr holl benderfyniadau allweddol a wnaed gan y comisiynydd, gan gynnwys y rheini mewn perthynas â gwasanaethau a gomisiynir. Gwnaethant hefyd gyflawni eu swyddogaeth statudol o ymdrin â chwynion a wnaed yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Cafwyd dwy gŵyn a gafodd eu hystyried yn unol â phrotocol cwynion y Panel. Penderfynwyd peidio â chymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r naill na'r llall.

I gael rhagor o fanylion am y Panel Heddlu a Throseddu a'u gweithgareddau craffu, ewch i: https://www.dppoliceandcrimepanel.wales/
Cyhoeddir cofrestr o gwynion ar wefan y panel: https://www.panelheddluathroseddudp.cymru/cartref/y-comisiynydd/

## Cwynion a phryderon

Wrth graffu ar yr heddlu, mae'r comisiynydd yn ystyried cwynion a dderbyniwyd yn erbyn y Prif Gwnstabl. Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am gynnal ymchwiliadau i gwynion a materion ymddygiad yn erbyn swyddogion heddlu (islaw rheng y Prif Gwnstabl) a staff o fewn yr heddlu.

Ochr yn ochr â chwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl, mae'r comisiynydd a'i dîm hefyd yn ystyried adroddiadau o anfodlonrwydd a godir gan aelodau'r cyhoedd ynghylch gwahanol faterion y maent wedi dod ar eu traws yn ardal ein heddlu. Cyfeirir at y rhain fel 'pryderon cymunedol' sy'n cael eu cofnodi ar system gofnodi Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Caiff pryderon cymunedol eu dadansoddi bob chwarter i nodi unrhyw themâu neu dueddiadau er mwyn i'r comisiynydd sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol amdanynt.



Amlygwyd y bu cynnydd mewn pryderon cymunedol yn ymwneud â thrwyddedu arfau tanio. Gwrandawodd y comisiynydd ar bryderon y cyhoedd a rhannodd y rhain â'r Prif Gwnstabl drwy'r Bwrdd Plismona. Rhoddwyd ffocws arbennig ar ba mor brydlon yr oedd ceisiadau'n cael eu prosesu a pha un a oedd yn peri unrhyw risg i'r cyhoedd. Rhoddwyd sicrwydd mai un o brif amcanion yr Adran Trwyddedu Arfau Tanio yw nodi niwed y gellir ei atal ac y gellir ei osgoi. I'r perwyl hwnnw, bydd Heddlu Dyfed-Powys bob amser yn sicrhau diwydrwydd dyladwy yn unol â chanllawiau statudol ac, yn bwysicaf oll, er budd diogelwch y cyhoedd. At hynny, rhoddwyd sicrwydd i'r comisiynydd y bydd ystyriaethau ynghylch y prosesau a'r gweithdrefnau arfau tanio presennol yn cael eu hystyried, yn ogystal â pha un a yw lefel yr adnoddau presennol yn briodol fel rhan o'r adolygiad parhaus o'r heddlu. Bydd y comisiynydd a'i dîm yn parhau i fonitro perfformiad yr Adran Trwyddedu Arfau Tanio yn ystod y flwyddyn i ddod er mwyn sicrhau ei bod yn diwallu anghenion y cyhoedd.

### Nifer y cwynion a phryderon yn 2022-23

| | |
|---|---|
| Nifer y cwynion ffurfiol yn erbyn y Prif Gwnstabl | 9 |
| Nifer y cwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl a gofnodwyd | 5 |
| Nifer yr apeliadau yn erbyn y penderfyniad a wnaed i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu | 0 |
| Nifer yr apeliadau a gadarnhawyd o blaid penderfyniad y comisiynydd | 0 |
| Cyfanswm pryderon y gymuned a dderbyniwyd | 412 |
| % achosion wedi'u cau a ddatryswyd o fewn 30 diwrnod gwaith | 100% |

## Adolygiadau o gwynion

Gwnaeth Deddf Plismona a Throsedd 2017 a'r rheoliadau ategol newidiadau sylweddol i systemau cwynion a disgyblu'r heddlu. Cafodd y newidiadau hyn eu cynllunio i gyflawni system gwynion sy'n canolbwyntio mwy ar y cwsmer. Yn bwysig, nod y diwygiadau oedd gwneud y system ddisgyblu yn fwy cymesur, ac annog llawer mwy o bwyslais ar ddysgu o gamgymeriadau.

Ers 1 Chwefror 2020, os cofnodwyd cwyn unigolyn o dan Atodlen 3 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002, a bod yr unigolyn yn anhapus â chanlyniad ei gŵyn, gall yr unigolyn hwnnw wneud cais am adolygiad i'r corff adolygu perthnasol, naill ai i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ( IOPC) neu i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

**Mae gan y comisiynydd ddyletswydd i ystyried ceisiadau am adolygiad i benderfynu ar:**

- Pa un a oedd y cais am adolygiad yn un dilys;
- Pa un a oedd canlyniad y gŵyn yn rhesymol a chymesur; a
- Pa un a ddylid gwneud unrhyw argymhellion i'r heddlu oherwydd y modd yr ymdriniwyd â'r gŵyn a/neu ganlyniad y gŵyn.


### Adolygiadau 2022-23

| | |
|---|---|
| Cyfanswm yr adolygiadau dilys a dderbyniwyd | 48 |
| Cyfanswm yr adolygiadau wedi'u cwblhau | 74 |
| Cyfanswm wedi'u cadarnhau | 23 |
| Cyfanswm heb eu cadarnhau | 51 |
| Cyfanswm yn parhau | 5 |
| Cyfanswm y gwersi a ddysgwyd / argymhellion a nodwyd gan y comisiynydd | 23 |

*Dylid nodi bod nifer yr adolygiadau a gwblhawyd yn 2022-23 yn uwch na nifer yr adolygiadau a dderbyniwyd oherwydd bod 31 o adolygiadau wedi'u cario drosodd o'r flwyddyn flaenorol.

Rhaid cyfathrebu canlyniad adolygiad i'r achwynydd yn ysgrifenedig. Rhaid iddo gynnwys digon o wybodaeth i alluogi'r darllenydd i ddeall pa benderfyniadau ac argymhellion a wnaed, a pham.

Ym mis Ionawr 2023, cynhaliodd archwilwyr mewnol, TIAA, adolygiad sicrwydd ynglŷn â'r modd yr ymdrinnir â chwynion. Rhoddwyd ystyriaeth i'r trefniadau sydd ar waith o fewn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer cofnodi, cydnabod, adolygu ac ymateb i'r cwynion hynny a wnaed yn erbyn Heddlu Dyfed-Powys lle mae'r achwynydd yn anfodlon â'r canlyniad. Sicrhaodd yr adolygiad y cydymffurfiwyd â'r gofynion a nodir yn Neddf Plismona a Throseddu 2017, a ddaeth i rym ym mis Chwefror 2020. Nododd yr adolygiad fod nifer o faterion yn ymwneud â chydymffurfedd â'r amserlenni a nodir yn y Polisi Cwynion. Roedd hyn eisoes wedi'i gydnabod gan swyddfa'r comisiynydd a chymerwyd camau i sicrhau bod yr adnoddau priodol ar waith i fynd i'r afael â'r ôl-groniad ac i wella prydlondeb a gwydnwch. O ganlyniad i'r cam hwn, ni chodwyd unrhyw argymhellion ac ni nodwyd unrhyw un pwynt o fethiant yn ystod yr archwiliad.



## Tryloywder

Caiff y comisiynydd ei ethol gan y cyhoedd a rhaid iddo fod yn atebol i'r cyhoedd yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Mae Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth benodol am Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu cael ei chyhoeddi. Yna gall y cyhoedd ddefnyddio'r wybodaeth hon wrth ddwyn eu comisiynydd i gyfrif. Bydd set gyson o wybodaeth gyhoeddedig hefyd yn galluogi'r cyhoedd i gymharu gwasanaethau ag ardaloedd heddlu eraill. Yn y blynyddoedd a fu, mae swyddfa'r comisiynydd wedi derbyn y Marc Ansawdd Tryloywder gan arbenigwyr llywodraethu'r heddlu - CoPaCC, - mewn cydnabyddiaeth o safonau ansawdd uchel mewn perthynas â thryloywder strwythurau llywodraethu a chyhoeddi gwybodaeth.

Yn absenoldeb cyllid, yn anffodus, penderfynodd CoPaCC,  na allent gynnal archwiliad tryloywder o wefannau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu mwyach.

Wrth ennill y Marc Ansawdd Tryloywder yn flaenorol, mae swyddfa'r comisiynydd wedi profi ei bod yn darparu gwybodaeth yn brydlon, yn gyson ac yn glir, gan ddangos ymrwymiad parhaus i dryloywder. Er mwyn sicrhau bod swyddfa'r comisiynydd yn cynnal y sefyllfa hon, cynhelir gwiriadau mewnol rheolaidd ar y wefan.

Mae gwaith yn parhau i ddatblygu gwefan newydd ar gyfer y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, a fydd yn cael ei lansio yn ystod y flwyddyn i ddod. Fel rhan o'r gwaith hwn mae'r tîm yn sicrhau y byddwn yn parhau i gydymffurfio â'r holl ofynion statudol.

Mae manylion llawn y Gofynion Cyhoeddi Statudol, ynghyd â manylion sut mae hyn yn cael ei gyflawni, ar gael ar wefan y comisiynydd. Mae'n cynnwys yr angen i gynnwys manylion deiliaid swyddi, staff, incwm a gwariant, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau, penderfyniadau a pholisïau.

https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/11102/gwefan-tryloywder-gwybodaeth-2022-23.docx

## Safonau'r Gymraeg

Drwy gydol y flwyddyn, parhaodd swyddfa'r comisiynydd i weithio'n agos gyda Heddlu Dyfed-Powys i sicrhau y glynir wrth ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae cynrychiolydd o'r swyddfa yn mynychu cyfarfodydd chwarterol "Yr Iaith Ar Waith" er mwyn bod yn ymwybodol o lefelau cydymffurfedd yr heddlu.

Mae darpariaeth hyfforddiant newydd ar y cyd drwy gyfrwng y Gymraeg wedi dechrau, ac mae recriwtiaid sy'n siarad Cymraeg bellach yn cael y cyfle i ymgymryd â llawer o'u hyfforddiant yn Gymraeg. Mae hyn wedi digwydd o ganlyniad i waith grŵp gorchwyl a gorffen ar wneud gwelliannau mewn perthynas â'r Gymraeg. Ymunodd cynrychiolwyr o'r swyddfa â'r grŵp a argymhellodd gydweithio â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol De Cymru i gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer recriwtiaid newydd sy'n siarad Cymraeg. Yn ogystal, cytunwyd ar swydd newydd i diwtor Cymraeg, a bydd deiliad y swydd yn dechrau yn ystod 2023 i gefnogi swyddogion a staff i wella'u sgiliau Cymraeg.

Cynhaliwyd cyfarfodydd y Bwrdd Plismona drwy gyfrwng y Gymraeg ar ddau achlysur yn ystod 2022-23. Mae cyfarfodydd y Bwrdd Atebolrwydd Plismona bob amser yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg, a darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer y rhai na allant ddeall Cymraeg yn llawn.




Mae pob swydd wag o fewn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn rhagnodi'r gallu i siarad Cymraeg hyd at lefel un, neu fod yn rhaid i'r unigolyn gyrraedd lefel un o fewn chwe mis i ddechrau yn y swydd. Cynigir y cyfle i'r holl staff fynychu gwersi Cymraeg, ac yn ystod y flwyddyn cyflwynwyd "Clwb Clecs" misol a oedd yn galluogi'r staff i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg mewn amgylchedd diogel. Ar hyn o bryd, mae 65% o'r tîm yn hyderus wrth siarad drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn sicrhau bod y swyddfa'n gallu cynnig gwasanaeth dwyieithog.



## Y Cydbwyllgor Archwilio

Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn rhoi sicrwydd annibynnol i'r comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, rheoli risg a fframweithiau a rheoli, gan gynnwys adroddiadau ariannol, prosesau llywodraethu blynyddol a chanfyddiadau archwiliadau mewnol ac allanol.

Mae gwaith y pwyllgor yn helpu i sicrhau bod trefniadau effeithlon ac effeithiol ar waith. Gall eu dyfarniadau gael eu llywio gan y gwaith craffu a wneir gan y Panel Heddlu a Throseddu.

Yn ystod 2022-23 bu nifer o newidiadau i aelodaeth y Pwyllgor, wrth i'r cadeirydd Martin Evans a'r aelod Lynne Hamilton roi'r gorau i'w rolau. Bydd colled fawr ar ôl y ddau, a dymunwn y gorau iddynt ar gyfer y dyfodol.

Penodwyd Kate Curran yn gadeirydd newydd y Cydbwyllgor Archwilio wrth symud ymlaen. Penodwyd Farhan Shakoor a Brian Jones i'r pwyllgor yn ystod y flwyddyn, a disgwylir i aelodau eraill sydd newydd eu penodi ddechrau yn ddiweddarach yn 2023.

Yn ystod 2022-23 cyfarfu'r pwyllgor ar bum achlysur. Bu'r pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar:

- Rheoli risg – lle nododd y pwyllgor y gwaith parhaus o fewn yr heddlu i greu diwylliant o ymgysylltu a pherchnogaeth ar draws gweithgareddau rheoli risg. Nodwyd hefyd y risgiau mewn perthynas â methiannau'r system teledu cylch cyfyng yn y ddalfa, y gwasanaeth gofal iechyd yn y ddalfa a cholled galluoedd patholeg fforensig y Swyddfa Gartref yng Nghymru.
- Rheoli Gwybodaeth – cafodd y pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion yn ymwneud â diogelu data, gan gynnwys ceisiadau rhyddid gwybodaeth a cheisiadau am fynediad at ddata gan y testun. Ystyriodd y pwyllgor achosion o dorri diogelwch data a sut roedd y rhain wedi cael eu rheoli i liniaru unrhyw risg.
- Llywodraethu – ystyriodd y pwyllgor y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol a'u cymeradwyo ar gyfer y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl a chyfrannodd at waith adolygu'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor: https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/11681/2022-23-jac-annual-report-final-cymraeg.docx

## Archwiliadau mewnol

Mae cynllun archwilio cytunedig ar waith gydag archwilwyr mewnol y comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, TIAA. Maent yn targedu adnoddau at feysydd o risg a phryder a nodwyd gan y comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.

**Roedd yr archwiliadau mewnol a gynhaliwyd yn ystod 2022-23 yn cynnwys:**

- Rheoli eiddo;
- Diogelwch enillion o droseddau a feddiannwyd (arian ac asedau);
- Atal twyll (caffael gwrth-dwyll);
- Rheoli'r ystâd - gwaith cynnal a chadw ataliol ac wedi'i gynllunio; a
- Delio â chwynion (Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu).

**Cynhaliwyd archwiliadau mewnol hefyd ar sail Cymru gyfan, gan gynnwys:**


- Adolygu credydwyr, treuliau a thaliadau ychwanegol;
- Gweithio ystwyth; a
- Rheoli risg – rheolaethau lliniaru.

# Archwiliadau allanol

Archwilio Cymru yw'r archwilwyr allanol penodedig i'r comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Bob blwyddyn, maent yn rhoi sylwadau ar agweddau ariannol ar lywodraethu corfforaethol, gan gynnwys cyfreithlondeb trafodion ariannol, systemau sefydlog ariannol, systemau rheolaeth ariannol fewnol a safonau ymddygiad ariannol, twyll a llygredigaeth.

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd Archwilio Cymru farn archwilio ddiamod i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl mewn perthynas â chyfrifon 2020-21. Roeddent wedi'u bodloni bod trefniadau priodol ar waith yn ystod y flwyddyn i ddiogelu arferion darbodus, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y defnydd o'u hadnoddau. Gwnaeth y comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gydymffurfio â chau eu cyfrifon yn statudol, y cawsant eu cadarnhau erbyn diwedd Gorffennaf 2021, er gwaethaf effaith pandemig COVID-19 ar wasanaethau cyhoeddus.

Mewn perthynas â Datganiad o Gyfrifon 2021-22, er gwaethaf y ffaith eu bod wedi'u cyflwyno i Archwilio Cymru erbyn diwedd mis Mai 2022, nodwyd nifer o broblemau yn ystod y broses archwilio statudol mewn perthynas â'r prisiad asedau a gynhelir bob pum mlynedd. Ar ôl trafodaeth helaeth, adolygiad ac ystyriaeth ddyledus gan randdeiliaid allweddol, gan gynnwys y Cydbwyllgor Archwilio, cafodd prisiad annibynnol pellach ei gaffael drwy broses gystadleuol. Ar ôl cwblhau'r diwydrwydd dyladwy priodol ar gyfer y prisiadau newydd, a dderbyniwyd ddiwedd mis Tachwedd, diweddarwyd y Datganiad o Gyfrifon a'i gyflwyno i Archwilio Cymru ddiwedd mis Ionawr. Roedd disgwyl i'r archwiliad statudol ddod i ben ym mis Mehefin 2023.





# Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (AHGTAEF)

Mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (AHGTAEF) yn asesu Heddlu Dyfed-Powys yn annibynnol. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r comisiynydd ystyried ac ymateb i bob un o'r asesiadau.

Y llynedd, adroddodd y comisiynydd ar ymdrechion yr heddlu i wella ar ôl i'r arolygiaeth gyhoeddi achos carlam o bryder ynghylch uniondeb data ar droseddau. Yn dilyn ailymweliad ym mis Mai 2022, nododd Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi fod yr heddlu wedi gwneud gwelliannau amlwg, yn enwedig mewn perthynas â sicrhau cywirdeb cofnodion troseddau rhywiol.

Rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023, ymatebodd y comisiynydd i 10 adroddiad arolygu ar wahân gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, ac mae pob un ohonynt i'w gweld ar wefan y comisiynydd: https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd-a-thryloywder/perfformiad-grym/hmic/

**Ebrill 2022**
- Arolygiad thematig ar y cyd o ymateb yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i dreisio – Cam Dau

**Gorffennaf 2022**
- Arolygiad thematig ar y cyd o Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA)
- Effaith pandemig COVID-19 ar y system cyfiawnder troseddol – adroddiad cynnydd

**Awst 2022**
- Cam-drin domestig a gyflawnwyd gan yr heddlu: Adroddiad ar uwch gŵyn y Ganolfan Cyfiawnder Merched
- Arolygiad o effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a dilysrwydd Heddlu Dyfed-Powys 2021-22

**Medi 2022**
- Ymateb yr heddlu i fwrgleriaeth, lladrad a throseddau meddiangar eraill

**Tachwedd 2022**
- Arolygiad o fetio, camymddwyn a chasineb tuag at fenywod yng ngwasanaeth yr heddlu

**Rhagfyr 2022**
- Arolygiad o ba mor dda y mae'r heddlu ac asiantaethau eraill yn defnyddio dulliau fforensig digidol yn eu hymchwiliadau

**Chwefror 2023**
- Sut mae'r heddlu'n ymateb i ddioddefwyr cam-drin rhywiol pan fo'r dioddefwr yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol ac y gallai fod mewn perygl o gael ei gam-drin ar sail anrhydedd: Adroddiad ar uwch gŵyn Tees Valley Inclusions Project

**Mawrth 2023**
- Gwerthoedd a diwylliant yn y gwasanaethau tân ac achub

# Bod yn gynaliadwy

## Cynaliadwyedd

Mae cynaliadwyedd yn werth allweddol i'r comisiynydd. Mae Grŵp Cynaliadwyedd Dyfed-Powys yn goruchwylio'r gwaith, ac wedi bod yn gweithredu ers sawl blwyddyn. Mae'r grŵp yn monitro gwaith yr heddlu i yrru'r agenda cynaliadwyedd yn ei blaen, i sicrhau bod y sefydliad yn lleihau ei ôl troed carbon ac yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd. Mae'r canlynol ymhlith y mentrau allweddol:

- Nid oes angen defnyddio unrhyw danwydd ffosil ar gyfer Canolfan Dalfa a Gorsaf Heddlu newydd Llanelli. Mae'r adeilad wedi'i adeiladu i safon ragorol Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu ac mae'n cynnwys paneli solar ar y to, dŵr glaw ar gyfer fflysio toiledau a chyfleusterau ar gyfer gwefru cerbydau trydan.
- Cyflwynwyd 'Mai Di Dor' gyda dolydd blodau gwyllt yn cael eu hybu a llwybrau cerdded i staff yn y pencadlys. Yn ogystal, mae cynefinoedd adar a blychau wedi'u gosod yn y pencadlys.
- Cafwyd gwared ar swm sylweddol o offer trydanol megis oergelloedd a gwresogyddion trydan ar draws yr ystâd, ac mae hynny wedi lleihau'r defnydd o ynni.
- Bydd gostyngiad yn nifer yr argraffyddion / copïwyr o 140 i 65 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn arwain at arbediad amgylcheddol amcangyfrifedig o 6,513kg o $CO_2$ – gostyngiad o 20.5%.
- Mae monitro cyfleustodau lleol ar waith i helpu lleihau'r galw a defnydd.
- Mae seilwaith gwefru fflyd cerbydau trydan bellach ar gael ar wyth safle allweddol, sy'n cyd-fynd â'r timau plismona yn y gymdogaeth bresennol a'r gronfa ganolog o fflyd cerbydau trydan.
- Mae gwaith yn parhau ar feincnodi a chydgrynhoi eiddo gyda golwg ar leihau a rhannu ôl troed carbon cyfunol gwasanaethau ymhellach. Yn ystod 2022-23, dechreuodd saith prosiect cydweithredu gyda'r bwriad o rannu eiddo â Chyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Powys a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r rhain wedi symud ymlaen drwy gydol y flwyddyn a byddant yn caniatau ar gyfer manteision yn 2023-24.





# Ymgysylltu'n eang

Mae'r Comisiynydd yn ceisio hyrwyddo a datblygu mwy o gyfranogiad cymunedol mewn plismona i sicrhau bod pobl sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth yn ardal yr heddlu yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau sydd o bwys iddynt.

Drwy gydol 2022-23, bu'r comisiynydd a'i dîm yn ymgysylltu â chymunedau lleol ac yn ymgynghori â nhw ar faterion plismona pwysig.

## Gweithgareddau ymgysylltu'r comisiynydd

### Sioeau a digwyddiadau haf

Yn 2022 cynhaliwyd rhai o'r digwyddiadau cenedlaethol mawr eto a oedd wedi'u gohirio oherwydd pandemig COVID-19. Yn ystod misoedd yr haf bu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a staff o'r swyddfa yn arddangos yn Sioe Frenhinol Cymru, Llanfair-ym-Muallt ym mis Gorffennaf ac yn Eisteddfod Genedlaethol Tregaron a Sioe Sir Benfro, y ddwy ym mis Awst.

Roedd y rhain yn gyfleoedd allweddol i ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd a phartneriaid allweddol ac i hyrwyddo gwaith y swyddfa. Roedd aelodau o gynlluniau gwirfoddoli'r comisiynydd hefyd yn bresennol yn rhai o'r digwyddiadau, yn ogystal â nifer o'r gwasanaethau a gomisiynir, i siarad â'r cyhoedd am y gwaith y maent yn ei wneud i gefnogi'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Roedd y digwyddiadau hyn hefyd yn bwysig o ran cefnogi ymgyrch recriwtio'r Fforwm Ieuenctid a'r arolwg ieuenctid. Nododd canlyniadau'r arolwg dri maes blaenoriaeth i'r Fforwm Ieuenctid ganolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn.





# Uchafbwyntiau ymgysylltu cymunedol eraill

## Ymgysylltiad cymunedol Ceredigion

Mae'r comisiynydd yn cynnal diwrnodau ymgysylltu â'r gymuned yn rheolaidd, lle mae'n cyfarfod â phartneriaid allweddol, darparwyr gwasanaethau ac aelodau'r cyhoedd.

Yn ystod ymweliad â Cheredigion, aeth y comisiynydd i;r Brifysgol yn Aberystwyth i arsylwi a phrofi'r ddyfais rhithwir y maent wedi'i greu i ymdrin â cham-drin domestig. Aeth ymlaen wedyn i Ganolfan Cyfiawnder Aberystwyth i ymweld â'r ystafelloedd cyn-treial ar gyfer tystion, a'r llys, yn ogystal â chwrdd â rhai o'r staff sy'n cynnig cymorth i helpu tystion i roi'r dystiolaeth yn gywir ac yn hyderus.

Roedd hwn hefyd yn gyfle i ymweld â gwasanaethau a gomisiynwyd. Ymwelodd y comisiynydd â Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed, sy'n darparu gwasanaeth cymorth camddefnyddio sylweddau i oedolion, a New Pathways sy'n darparu gwasanaethau cymorth treisio a cham-drin rhywiol mewn argyfwng. Mynychodd hefyd eiddo a gynigiwyd drwy gynllun peilot tai Rheoli Troseddwyr Integredig, i weld y cymorth adsefydlu mewn argyfwng hanfodol a ddarperir i droseddwyr.

## Ymgysylltu â chymuned Sir Gaerfyrddin

Cynhaliodd y comisiynydd y digwyddiad drysau agored ar gyfer rhanddeiliaid lleol yng nghanolfan plismona a dalfa newydd Dyfed-Powys yn Nafen, Llanelli. Cyfarfu hefyd â Chlwb Byddar Llanelli, i weld y gwelliannau sy'n cael eu gwneud i'w safle, a oedd yn cael ei wneud gan Willmot Dixon, y cwmni sy'n gyfrifol am waith adeiladu'r ganolfan newydd yn Nafen.



Fel rhan o'i gytundeb â Heddlu Dyfed-Powys, rhaid i Willmot Dixon sicrhau ei fod yn gwneud cyfraniad i'r gymuned leol drwy weithgareddau megis cynnig hyfforddiant a darparu cefnogaeth ymarferol, megis deunyddiau a llafur, i sefydliadau yn yr ardal leol.



Un o'r rhai a enwebwyd i elwa ar y cytundeb hwn oedd Clwb Byddar Llanelli, a elwir hefyd yn Ganolfan Llanelli i'r Byddar. Mae'r ganolfan yn cynnig cyfeillgarwch a chefnogaeth i bobl o bob oedran sy'n fyddar neu sydd wedi colli eu clyw, yn cynnal cyrsiau Iaith Arwyddion Prydain (BSL), ac mae ganddi ei heglwys ei hun hyd yn oed.

Cafodd y comisiynydd ei dywys o amgylch yr adeilad gan rai o'r aelodau a gwnaethant esbonio'r gwaith y maent yn ei wneud, i gyd yn wirfoddol ac yn ddibynnol ar arian grant yn unig. Roedd hefyd yn amhrisiadwy dysgu mwy am anghenion pobl fyddar neu bobl sydd wedi colli eu clyw wrth ryngweithio â'r heddlu, a'u profiadau o droseddu neu o adrodd am  ddigwyddiadau.

## Ymgysylltu â chymuned Sir Benfro

Yn ystod ymweliad â Sir Benfro, cafodd y comisiynydd ei ysbrydoli'n llwyr gan ei ymweliad ag elusen gelf i gyn-filwyr sy'n creu canolbwynt i'r gymuned gyfan yn Noc Penfro.

Wedi'i sefydlu yn 2013 gan gyn-filwr y Fyddin, Barry John MBE, mae'r Oriel Cyn-filwyr a'r Gymuned (VC) yn defnyddio celf a phrosiectau creadigol eraill i ennyn diddordeb cyn-filwyr ac aelodau eraill o'r gymuned. Ar hyd y ffordd maent yn helpu i frwydro yn erbyn unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol, gan gefnogi pobl o bob oed a gallu, gan gynnwys unigolion ag anableddau meddyliol neu gorfforol.

Yn gynharach eleni symudodd stiwdio'r elusen yn Noc Penfro i safle mwy o faint yn yr hen ysgol gynradd ar Ffordd Britannia. Cafodd y comisiynydd daith o amgylch y safle gan Barry a'r cydlynydd gwirfoddolwyr Chris Paling, wrth iddynt rannu eu cynlluniau uchelgeisiol i drawsnewid y safle yn ganolbwynt i'r gymuned gyfan.

## Ymgysylltu â Chymuned Powys

Yn ystod ymweliad â Phowys, treuliodd y comisiynydd amser gyda'r Tîm Troseddau Gwledig.

Powys yw'r sir fwyaf yng Nghymru a'r fwyaf gwledig o fewn ardal Heddlu Dyfed-Powys. Gall hyn fod yn heriol iawn o ran plismona'r ardal. Bu'r comisiynydd yn cysgodi'r Tîm Troseddau Gwledig wrth iddynt roi rhywfaint o gyngor atal troseddau i ffermwyr lleol.

### Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb

I gefnogi Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ym mis Hydref 2022, aeth y comisiynydd i'r sesiwn *'PL Kicks'* yn Aberystwyth a ariannwyd ganddo. Yn ystod y sesiwn daeth Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu a chynrychiolwyr o Gymorth i Ddioddefwyr i siarad â phobl ifanc sy'n mynychu'r sesiynau pêl-droed rhad ac am ddim am effeithiau troseddau casineb.

Yn dilyn y sesiwn, aeth y comisiynydd i gêm bêl-droed Uwch Gynghrair Cymru rhwng Clwb Pêl-droed Aberystwyth a Chlwb Pêl-droed Hwlffordd, lle roedd gweithgareddau ymwybyddiaeth troseddau casineb yn digwydd cyn y gêm ac yn ystod yr egwyl.



## Yma i Chi

Tua diwedd y flwyddyn, cynhaliodd y comisiynydd ddigwyddiadau ymgysylltu ar gyfer cynrychiolwyr cymunedol mewn chwe lleoliad ar draws ardal Dyfed-Powys. Nod y digwyddiadau ymgysylltu Yma i Chi oedd hysbysu cynghorwyr a chynrychiolwyr eraill am ddatblygiadau a newidiadau diweddar o fewn Heddlu Dyfed-Powys, ac i roi cyfle i bobl rannu unrhyw bryderon neu broblemau lleol â'r heddlu.

Cynhaliwyd y digwyddiadau yng Nghaerfyrddin, Llanelli, Hwlffordd, Llanbedr Pont Steffan, Y Drenewydd ac Aberhonddu.

Yn ystod y digwyddiadau, cafodd cynghorwyr eu briffio ar flaenoriaethau presennol yr heddlu ar gyfer mynd i'r afael â throseddau, y model Tîm Plismona Bro newydd, sut mae canolfan gyfathrebu'r heddlu yn gweithredu a dull partneriaeth yr heddlu o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.



Roedd cyfle hefyd i gynghorwyr ymgysylltu â Swyddogion Tîm Rhaglen Ysgolion Dyfed-Powys, Swyddogion Troseddau Gwledig a chynrychiolwyr o nifer o'r gwasanaethau a gomisiynir gan y comisiynydd megis Goleudy a New Pathways.

**Dywedodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn,**

> *"Fel Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, rydym yn aml yn cael ein gweld fel y bont rhwng y cymunedau a'r heddlu. Yn yr ystyr hwnnw, roedd y digwyddiadau ymgysylltu hyn yn allweddol i ni wrth inni geisio sicrhau bod ein cymunedau'n deall ac yn gwybod am unrhyw ddatblygiadau o fewn eu heddlu, a lefel y gwasanaeth y dylent ei disgwyl.*
>
> *Nid yn unig roedden nhw'n gyfle i ni roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gynghorwyr a chynrychiolwyr cymunedol eraill am negeseuon allweddol a datblygiadau o fewn Heddlu Dyfed-Powys, ond maent hefyd yn cynnig cyfle i ni wrando, ac i gynghorwyr godi eu pryderon gyda ni yn uniongyrchol."*



## Cynhadledd Dydd Gŵyl Dewi

Plismona drwy gydsyniad oedd y pwnc trafod yng Nghynhadledd Gŵyl Dewiblynyddol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu eleni, a gynhaliwyd ddydd Gwener, 3 Mawrth 2023 ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys yng Nghaerfyrddin.

Mae plismona drwy gydsyniad, sef y ddamcaniaeth y tu ôl i egwyddorion Peelian a luniwyd i ddiffinio heddlu moesegol, yn dibynnu'n helaeth ar hyder y cyhoedd. Mae mynd i'r afael â'r heriau o ailadeiladu ffydd a hyder y cyhoedd yn hanfodol i ddiogelu dyfodol dilys i blismona.

Mae hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd mewn gwasanaethau plismona heddiw ymhlith yr isaf erioed. Mae achosion â phroffil uchel, megis llofruddiaeth Sarah Everard yma yn y Deyrnas Unedig, a llofruddiaeth George Floyd yn yr Unol Daleithiau, i enwi ond dau, wedi taflu goleuni ar yr hyn sy'n ymddangos yn ddiwylliant o gasineb at fenywod, hiliaeth, a llygredd o fewn plismona.

Dywedodd Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn; "Clywais yn ddiweddar uwch heddwas uchel ei barch ac ymroddedig yn sôn yn gyhoeddus, nad yw erioed wedi teimlo cymaint o embaras a chywilydd o weithio i'r heddlu, er gwaethaf peth o'r gwaith rhagorol sy'n digwydd mewn rhai meysydd o blismona.

"Mae ailadeiladu hyder y cyhoedd yn ein gwasanaeth plismona yn hanfodol os ydym am ddiogelu dyfodol dilys ar gyfer blismona. Ni ellir gwneud hyn dros nos. Mi fydd yn cymryd blynyddoedd, ond ein cyfrifoldeb ni yw hyn, ac mae angen inni fynd i'r afael â'r heriau, heddiw."

**Ymhlith siaradwyr gwadd y gynhadledd, roedd:**

- Yr Athro Richard Wyn Jones a Dr. Robert Jones, awduron y llyfr a gyhoeddwyd yn ddiweddar, 'Criminal Justice in Wales: On the Jagged Edge';
- Yr Athro Emmanuel Ogbonna, a weithiodd gyda Llywodraeth Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar eu Cynlluniau Gweithredu Gwrth-hiliaeth;
- Dirprwy Brif Gwnstabl Maggie Blyth, sydd bellach yn gweithio i'r Coleg Plismona ac yn arwain Cynghorau Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched; a
- Nerys Llewelyn Jones a fu'n gomisiynydd ar Gomisiwn Thomas, dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Thomas o Gwmgeidd, a gynhaliodd adolygiad o'r system gyfiawnder yng Nghymru.

Hon oedd y seithfed Gynhadledd Dewi Sant blynyddol yr oedd Dafydd Llywelyn wedi bod iddi, gyda chynadleddau blaenorol yn canolbwyntio ar reolaeth orfodol (2017), iechyd meddwl ym maes plismona (2018), seiberdroseddu (2019), troseddau cefn gwlad(2020), dioddefwyr (2021) ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. (2022).

# Ymgynghoriadau

## Ymagwedd adferol at droseddau lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol




Ym mis Mawrth 2023, gwnaeth y Swyddfa Gartref argymhellion i comisiynwyr gynnal ymgynghoriad angenrheidiol ar ddewislen rhwymedïau cymunedol newydd.

Bydd arolwg cyhoeddus yn cael ei gynnal yn ystod 2023-24 yn gofyn i'r cyhoedd ddweud eu dweud ar yr opsiynau sydd ar gael i ddioddefwyr troseddau lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae rhwymedi cymunedol yn canolbwyntio ar y dioddefwr, gyda'r nod o roi mwy o lais i ddioddefwyr yn y modd y dylid ymdrin â throseddwyr a chynyddu hyder y cyhoedd mewn datrysiadau y tu allan i'r llys.

Gan ddefnyddio dull adferol, mae'r rhwymedi cymunedol yn cynnig rhestr o sancsiynau priodol y gall yr heddlu a swyddogion ymchwilio awdurdodedig eu defnyddio , weithiau ar y cyd â datrysiadau eraill, mwy ffurfiol, y tu allan i'r llys.

Gall sancsiynau o'r fath gynnwys atgyweirio difrod a achoswyd, cyfryngu i gefnogi'r gwaith o ddatrys anghydfodau, rhaglenni camddefnyddio sylweddau a dibyniaeth ar alcohol, ymddiheuriad llafar neu ysgrifenedig, a chyrsiau addysgol, dargyfeiriol neu reoli dicter.

Bydd addasrwydd yr opsiynau yn dibynnu ar natur y drosedd, oedran y troseddwr ac amgylchiadau'r sefyllfa. Defnyddir rhwymedi cymunedol gan amlaf gyda throseddwyr lefel isel am y tro cyntaf.

**Dywedodd Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn:**

> *"Fel eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu, rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn ardal Dyfed-Powys yn briodol i oedran, yn gynaliadwy ac yn ystyrlon, gan gadw mewn cof anghenion y rhai dan sylw. Mae hyn yn cynnwys arferion adferol mewn lleoliadau addysg, teuluol a chymunedol a ddefnyddir ar gyfer mesurau ataliol a chymorth parhaus; a datrysiadau y tu allan i'r llys i ddargyfeirio oedolion ifanc oddi wrth y system cyfiawnder troseddol. Mae cefnogi dioddefwyr troseddau i wella a symud ymlaen yn rhan allweddol o rôl Comisiynydd Heddlu a Throseddu, ac mae rhoi cyfiawnder adferol, megis rhwymedi cymunedol ar gael, yn un o'r ffyrdd gorau o wneud hynny."*

## Praesept yr heddlu

Er mwyn llywio'i ystyriaethau ar gyfer praesept yr heddlu ar gyfer 2023-24 ac er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau fel comisiynydd, ymgynghorodd Mr Llywelyn â'r cyhoedd i gael eu barn ar lefel y cynnydd ym mhraesept yr heddlu. O'r 1,194 o ymatebwyr, nododd 67.2% y byddent yn fodlon talu rhwng 5% a 12.5% tuag at blismona lleol, gyda 47.7% o'r rheini yn fodlon talu rhwng 7.5% a 12.5%.

Ymgorfforwyd rhagor o fanylion am ganlyniadau'r ymgynghoriad yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sydd ar gael ar wefan y Comisiynydd: https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-swyddfa/cyllid/y-praesept-a-r-cynllun-ariannol-tymor-canolig/

# Adnoddau

## Cyllideb ac alldro 2022/23

Mae gwasanaeth Heddlu Dyfed-Powys wedi wynebu heriau ariannol sylweddol ers 2010. Mae hyn oherwydd y gostyngiadau sylweddol yn y cyllid gan y llywodraeth ganolog, gwaddol y goblygiadau sy'n deillio o benderfyniadau blaenorol, ynghyd â phwysau cost sylweddol a newidiadau parhaus yn y cymhlethdod a'r galw am wasanaethau plismona. Mae hyn oll yng ngwyneb y dirwedd ariannol ac economaidd heriol iawn.

Yn dilyn proses llym o graffu a thrafod tybiaethau ariannol, risgiau sy'n bygwth ein cymunedau, a gofynion buddsoddi a blaenoriaethau, gosododd y comisiynydd gyllideb refeniw net o £127.4 miliwn i gyflawni gwasanaethau plismona ar gyfer ardal Dyfed-Powys ar gyfer 2022-23.

Fel rhan o'r gyllideb hon, gosododd y comisiynydd braesept o £290.16 fesul eiddo Band D a oedd, unwaith eto, yn golygu mai Dyfed-Powys oedd â'r praesept treth gyngor isaf yng Nghymru.

Setliad grant 2022-23 Dyfed-Powys oedd £62.9m ac roedd yn cynnwys cyllid ychwanegol i gefnogi 42 o swyddogion yn nwy gyfran gyntaf Rhaglen Uplift yr Heddlu, ynghyd â grant penodol pellach i gefnogi trydedd gyfran o 57 o swyddogion eraill erbyn diwedd y flwyddyn.

Cyfanswm y costau tâl a phensiwn a cyllidebwyd ar gyfer swyddogion heddlu a staff yr heddlu yw **£117.2 miliwn**.

Mae'r ychydig flynyddoedd diwethaf wedi bod yn ddigynsail am amrywiaeth o resymau ond, yn anffodus, parhaodd 2022-23 yn yr un modd, gydag economi sy'n gwanhau, cyfraddau llog uwch a chwyddiant sy'n cynyddu'n aruthrol. Mae effeithiau'r argyfwng costau byw wedi bod yn bellgyrhaeddol ac maent hefyd wedi'u gosod yn erbyn cefndir y rhyfel yn Wcráin, y cyfnod ar ôl Brexit, pandemig COVID-19 a chythrwfl gwleidyddol, sydd oll wedi cyfrannu at dirwedd economaidd ansefydlog. Mae effaith y rhain wedi arwain at oblygiadau sylweddol i bob gwasanaeth cyhoeddus, ac yn ddi-os byddant yn effeithio ar gyllid y llywodraeth yn y dyfodol.

Ar ôl cydnabod maint yr heriau ariannol, cyhoeddodd y Prif Gwnstabl yn ffurfiol gychwyn adolygiad o'r heddlu ym mis Mehefin 2022 i asesu pob maes gweithgaredd, gan geisio arbedion effeithlonrwydd, arbedion ariannol a chyfleoedd trawsnewid. Mae pob un o'r uwch arweinwyr wedi cymryd rhan lawn yn yr adolygiad hwn ac yn parhau i wneud hynny.

Yn ogystal, cymerodd y Prif Gwnstabl amrywiaeth o gamau cynnar i fynd ati'n rhagweithiol i gyfyngu ar wariant yn ystod 2022-23, gan geisio lliniaru beichiau ariannol yn ogystal â chynorthwyo i gwrdd â phwysau costau untro yn y dyfodol. Cymerodd y Comisiynydd fesurau hefyd i reoli gwariant o fewn ei swydd ei hun. Mae'r camau hyn wedi arwain at sefyllfa gadarnhaol ddiwedd blwyddyn, sy'n caniatáu rhywfaint o ystwythder a gwytnwch wrth fynd i'r afael â'r heriau ariannol yn 2023-24 a'r tu hwnt.



Mae'r tabl a ganlyn yn ddatganiad amrywiad sy'n nodi'r sefyllfa alldro derfynol ar gyfer 2022-23 ac yn cymharu hwn â'r gyllideb wreiddiol a'r gyllideb ddiwygiedig.

| Crynodeb o'r gyllideb refeniw 2022/23 | Cyllideb wreiddiol £000 | Cyllideb ddiwy-giedig £000 | Gwiri-oneddol £000 | Amrywiant (Cadarnha-ol ar gyfer arbed) £000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y gyllideb – Comisiynydd | 2,288 | 2,256 | 1,936 | 320 |
| Cyfanswm y gyllideb – Prif Gwnstabl | 126,126 | 126,157 | 122,783 | 3,374 |
| Symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn | - 969 | - 969 | 2,725 | - 3,694 |
| Gwariant net ar ôl trosglwyddo o/i gronfeydd wrth gefn | 127,445 | 127,445 | 127,445 | - |

Mae'r sefyllfa alldro derfynol yn dangos y bu amrywiad cadarnhaol o £0.3 miliwn yng nghyllideb refeniw'r comisiynydd a oedd yn ymwneud â swyddi gwag, cyllid ychwanegol a dderbyniwyd i gefnogi gwasanaethau a gomisiynir ac oedi yn y prosiect rhanbarthol ar gyfer canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol. Fel rhan o'r ystyriaethau ar gyfer praesept 2023-24 a phennu cyllideb, cytunodd y comisiynydd i ddefnyddio'r amrywiad hwn i sefydlu cronfa benodol wrth gefn o £0.3 miliwn i liniaru yn erbyn ansicrwydd yn y dyfodol mewn perthynas â chynnydd chwyddiant.

Mae'r sefyllfa alldro derfynol yn dangos bod costau'r Prif Gwnstabl £3.4 miliwn yn is na'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer y flwyddyn. Fe wnaeth yr heddlu arfer cyfyngiadau ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn a chymerodd amrywiaeth o fesurau gan gynnwys cadw swyddi gwag ar gyfer staff yr heddlu, a sicrhaodd arbedion o £0.6 miliwn. Yn ogystal â hyn roedd amrywiannau yn y proffil recriwtio ar gyfer swyddogion heddlu a oedd yn cyfrif am £1.4 miliwn o'r amrywiant. Cymerwyd mesurau i gynnwys gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau lle bynnag y bo'n bosibl, gan wrthbwyso nifer o feysydd pwysau gan gynnwys gweithgareddau fforensig a chydweithio, yn ogystal ag oedi wrth weithredu'r system rheoli cwsmeriaid / teleffoni newydd sydd oll wedi arwain at gostau heblaw cyflogau sydd £0.9 miliwn yn is na'r disgwyl. Bu nifer o amrywiannau eraill hefyd o fewn y gyllideb, gan gynnwys grantiau ychwanegol o £0.8 miliwn sy'n ymwneud â'r dyfarniad cyflog ar gyfer 2022-23 a £0.2 miliwn i ddarparu ar gyfer gorwario yn erbyn targedau recriwtio'r heddlu. Derbyniwyd incwm ychwanegol o £0.4 miliwn hefyd o weithgareddau dosbarthu cyd-gymorth a oedd yn cynnwys angladd y Frenhines.

Cyfanswm cyllideb 2022/23 ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yw **£2.3 miliwn**. O 31 Mawrth 2023 ymlaen, roedd 19 aelod o staff, heb gynnwys y Comisiynydd.

Fel rhan o'r gwaith o fonitro'r gyllideb yn ystod y flwyddyn ac wrth bennu'r gyllideb ar gyfer 2023-24, rhagwelwyd eisoes y byddai tanwariant o tua £1.1 miliwn ar gael i wrthbwyso gofynion y gyllideb yn y dyfodol ac i dalu am bwysau costau untro ychwanegol.

Cyflawnwyd llawer dros y flwyddyn ddiwethaf gyda buddsoddiad parhaus a sylweddol mewn ystadau, y fflyd a seilwaith TG hanfodol:

- Mae'r orsaf a'r ddalfa newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin bron wedi'u cwblhau;
- Mae gwaith dylunio terfynol a gwaith safle yn parhau i gael eu symud ymlaen mewn perthynas â'r cyfleuster cyduned ar gyfer hyfforddiant arfau tanio

- Y prosiect i ddisodli system rheoli cofnodion yr heddlu y bwriedir iddi fynd yn fyw ym mis Mehefin 2023; a
- Mae buddsoddiad mewn amrywiaeth o brosiectau TG i gefnogi gwaith cyflawni gweithredol yn well a gweithio ystwyth yn parhau i fynd rhagddo.

Gosododd y Comisiynydd gyllideb wreiddiol o £27.4 miliwn ar gyfer 2022-23. Diwygiwyd hyn pan gafodd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2023-24 ei bennu'n £22.7 miliwn ond, o ganlyniad i oedi mewn perthynas â chynlluniau ystadau a phrosiectau TG, yn ogystal â nifer o heriau o ran cyflenwad y farchnad, cyfanswm y gwariant ar ddiwedd y flwyddyn oedd £20.2 miliwn. Bydd £2.4 miliwn yn cael ei gario ymlaen i gefnogi prosiectau perthnasol yn 2023-24. Bydd gwaith yn parhau i adolygu'r holl ofynion buddsoddi cyfalaf presennol ac yn y dyfodol.

Mae perfformiad ariannol yn cael ei adrodd yn fisol drwy Fwrdd Plismona'r comisiynydd ac yn chwarterol drwy Fwrdd Atebolrwydd Cyhoeddus yr heddlu. Trafodwyd y sefyllfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn yn fanwl yn ystod cyfarfod y Bwrdd Plismona ar 20 Mehefin 2022. Cymeradwyodd y Comisiynydd syniad o greu nifer o gronfeydd wrth gefn newydd a nifer o symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn i ariannu mentrau a phrosiectau amrywiol a chynorthwyo i liniaru yn erbyn pwysau untro. Yn bwysig iawn, penderfynodd y Comisiynydd hefyd gynyddu ei gronfa gyffredinol wrth gefn gan £1 miliwn, gan gydnabod graddau'r ansicrwydd ariannol, y risgiau a phwysigrwydd gwytnwch ariannol. Bydd hyn yn golygu y bydd gwerth y cronfeydd cyffredinol wrth gefn tua 3.77% o'r gyllideb refeniw net blynyddol. Ar ddiwedd 2022-23, cyfanswm gwerth y cronfeydd wrth gefn oedd £20.3 miliwn, sy'n cynnwys swm o £7.1 miliwn i gefnogi ymrwymiadau cyllideb cyfalaf yn y dyfodol a chronfa gyffredinol wrth gefn o £5.0 miliwn.

I gael rhagor o wybodaeth am sefyllfa ariannol 2022-23, gweler y Datganiad o Gyfrifon Grŵp a gyhoeddir yma ar ôl iddynt gael eu harchwilio gan Archwilio Cymru a'u hardystio.
Cyfrifon Statudol (dyfedpowys-pcc.org.uk)

Roedd y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn yn gadarnhaol iawn, gan roi Heddlu Dyfed-Powys mewn sefyllfa gryfach a mwy gwydn i ymdrin â'r amrywiaeth o heriau ariannol yn y dyfodol, y ceir gwybodaeth gynhwysfawr amdanynt yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-swyddfa/cyllid/y-praesept-a-r-cynllun-ariannol-tymor-canolig/



# Y Gyllideb Gomisiynu


Y gyllideb gomisiynu ar gyfer 2022-23 oedd £2,354,375, a oedd yn cynnwys costau staff sy'n ychwanegol at gostau darparu gwasanaethau uniongyrchol.


Ariannwyd £660,827 o'r gyllideb gyffredinol drwy'r Grant Dioddefwyr craidd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.


Fel y nodwyd yn flaenorol, yn ystod 2022-23 sicrhaodd y comisiynydd £793,032 o gyllid ychwanegol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gefnogi dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r ddelwedd ganlynol yn dangos manylion y dyraniad hwn:

## Gwariant Cyllideb Comisiynu 2022/23





**Comisiynydd Heddlu a Throseddu**
**Dyfed-Powys**
**Police and Crime Commissioner**

## Cysylltwch â'r comisiynydd

01267 226440

opcc@dyfed-powys.police.uk

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Blwch Post 99
Llangynnwr
Caerfyrddin
SA31 2PF

www.dyfedpowys-pcc.org.uk

Facebook @DPOPCC

Twitter @DPOPCC